# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13
Tachwedd 2011

Bwriad y papur hwn yw cyfrannu at y gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13. Mae'n rhoi golwg gyffredinol o'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2012-13 a sut mae'r rhain yn cymharu â 2011-12. Mae hefyd yn trin ac yn trafod y newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15). Mae'n rhoi cyd-destun economaidd y gyllideb ddrafft drwy edrych ar ragolygon economaidd diweddar a sut mae'r rhain yn cymharu â'r llynedd.

Yn olaf, mae'n rhoi sylwebaeth ar y prif newidiadau ym mhob maes portffolio, gan gynnwys trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, gan ddangos dadansoddiad pellach a defnyddio dull gwahanol i'r hyn a ddarperir yn y dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/2179

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13

Tachwedd 2011

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 11/063

Gwasanaeth Ymchwil

## Amlinelliad o’r papur

Mae’r papur hwn yn rhoi golwg gyffredinol o Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13, fel y cawsant eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Hydref 2011.

Er bod Cyllideb Ddrafft 2012-13 yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2012-13 a dyraniadau dangosol ar gyfer y blynyddoedd 2013-14 a 2014-15, mae’r papur hwn yn canolbwyntio gan fwyaf ar ddyraniadau 2012-13, gan fod cynlluniau dangosol yn debyg o newid cryn dipyn. Caiff newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb i gyd eu dangos hefyd.

Mae Adrannau 1 a 2 yn cyflwyno’r gyllideb ddrafft ac yn rhoi rhywfaint o gyd-destun o ran yr hinsawdd economaidd.

Mae Adran 3 yn rhoi golwg gyffredinol o’r prif ffigurau ym mloc Cymru.

Mae Adrannau 4 i 10 yn delio â phob maes portffolio ac yn rhoi prif ffigurau, manylion dyraniadau ychwanegol a newidiadau arwyddocaol ym mhob maes.

## Cynnwys


**1. Cyllideb Ddrafft 2012-13 .......... 1**

**2. Cyfnod o newid: cyd-destun economaidd Cyllideb Ddrafft 2012-13 .......... 2**

*2.1. Rhagolygon twf .......... 4*
*2.2. Y Farchnad Lafur .......... 5*
*2.3. Chwyddiant .......... 6*

**3. Golwg Gyffredinol ar floc Cymru .......... 7**

*3.1. Cyfanswm y gwariant a reolir .......... 7*
*3.2. Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) .......... 10*
*3.3. DEL Refeniw .......... 14*
*3.4. DEL Cyfalaf .......... 17*
*3.5. Gwariant a Reolir yn Flynyddol .......... 20*

**4. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant .......... 22**

**5. Llywodraeth Leol a Chymunedau .......... 29**

**6. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth .......... 34**

**7. Addysg a Sgiliau .......... 39**

**8. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy .......... 45**

**9. Tai, Adfywio a Threftadaeth .......... 50**

**10. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu .......... 55**

## 1. Cyllideb Ddrafft 2012-13

Gosododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt AC, Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13[1] gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 4 Hydref 2011. Ynghyd â'r rhain, cyflwynwyd dogfen naratif,[2] tablau dyraniadau gwariant[3] a datganiad llafar.[4]

Mae Llywodraeth Cymru, a ddaeth i rym yn dilyn etholiad Cynulliad ym mis Mai 2011, nawr wedi llunio ei Rhaglen Lywodraethu,[5] ac mae Cyllideb Ddrafft 2012-13 yn datgan:

> Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro'r hyn yr ydym am ei gyflawni dros Gymru a'r camau y byddwn yn eu cymryd i roi ein gweledigaeth ar waith. Mae'r cynlluniau gwariant hyn yn amlinellu sut y byddwn yn cydweddu ein cyllidebau â'r amcanion hynny ac yn cyflawni dros bobl Cymru.[6]

Sylwer bod yr holl gyfrifiadau termau real a ddangosir yn y papur hwn wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio datchwyddwyr CMC Trysorlys EM[1] (fel yr oeddent ym mis Mehefin 2011). Dyma'r amcangyfrifon a ddefnyddir: 2.5% ar gyfer 2012-13 a 2.7% ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Wrth edrych ar bŵer gwariant cyffredinol Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ystyried a yw'r rhagolygon datchwyddwr CMC yn cynrychioli'r pwysau cost ar y sector cyhoeddus yn ddigonol, gan fod modd i gostau cyflogau a chontractwyr gael mwy o ddylanwad arnynt.

[1] Llywodraeth Cymru, *Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[2] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[3] Llywodraeth Cymru, Dyraniadau gwariant *Cyllideb Ddrafft 2012-13* , Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[4] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), *Cyllideb Ddrafft*, Datganiad llafar Cabinet, 4 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[5] Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu*, Medi 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[6] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (tudalen i) [fel ar 21 Hydref 2011]

## 2. Cyfnod o newid: cyd-destun economaidd Cyllideb Ddrafft 2012-13

Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010[7] yn cyhoeddi cyfnod o ymatal nas gwelwyd o'r blaen mewn cyllid cyhoeddus er mwyn lleihau'r diffyg yng nghyllideb y DU. Roedd y rhagolwg o'r effaith ar y terfynau gwariant adrannol (DEL)[8] ym mloc Cymru adeg Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 yn rhoi gostyngiad cronnus o £1.9 biliwn mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad o wariant (2010-11 i 2014-15). Mae newidiadau dilynol, o ganlyniad i Gyllideb 2011 y DU[9] a rhagolygon chwyddiant diwygiedig, yn golygu y rhagwelir, ar hyn o bryd, y bydd bloc Cymru yn gweld gostyngiad cronnus o £2.1 biliwn dros y cyfnod hwn. Caiff y ffigurau diwygiedig ar gyfer elfennau terfynau gwariant adrannol bloc Cymru eu dangos yn **nhabl 1**, a chaiff y newidiadau termau real eu dangos yn **nhabl 2**.

**Tabl 1: Rhagolygon terfynau gwariant adrannol refeniw a chyfalaf, 2010-11 i 2014-15 (termau arian parod)**

| | | | | | ***£ biliynau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
| DEL Refeniw | 13.4 | 13.3 | 13.4 | 13.5 | 13.5 |
| DEL Cyfalaf | 1.8 | 1.3 | 1.2 | 1.1 | 1.1 |
| **Cyfanswm DEL** | **15.2** | **14.6** | **14.6** | **14.6** | **14.6** |

Ffynhonnell: Cyllideb Trysorlys EM 2011 (Tabl 2.4)
Caiff DEL Refeniw ei ddangos heb gynnwys dibrisiant wedi'i neilltuo heb fod yn arian parod.

**Tabl 2: Newid termau real o un flwyddyn i'r llall i ragolygon DEL refeniw a chyfalaf**

| | **2010-11 to 2011-12** | | **2011-12 to 2012-13** | | **2012-13 to 2013-14** | | **2013-14 to 2014-15** | | **Newid cronnus 2010-11 i 2014-15** | | **Newid cronnus 2011-12 i 2014-15** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* |
| DEL Refeniw | -0.5 | -3.5 | -0.2 | -1.7 | -0.3 | -1.9 | -0.4 | -2.6 | -1.3 | -9.4 | -0.8 | -6.1 |
| DEL Cyfalaf | -0.5 | -29.8 | -0.1 | -9.9 | -0.1 | -10.7 | 0.0 | -2.6 | -0.8 | -45.1 | -0.3 | -21.7 |
| **Cyfanswm DEL** | **-1.0** | **-6.7** | **-0.4** | **-2.4** | **-0.4** | **-2.6** | **-0.4** | **-2.6** | **-2.1** | **-13.7** | **-1.1** | **-7.5** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Trysorlys EM 2011 (Tabl 2.4)
Caiff DEL Refeniw ei ddangos heb gynnwys dibrisiant wedi'i neilltuo heb fod yn arian parod.

---

[7] Trysorlys EM, ***spending Review 2010***, Hydref 2010 [fel ar 21 Hydref 2011]
[8] **Terfyn gwariant adrannol (DEL)** – fel rheol caiff ei osod dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, dyma derfyn cyllideb mwy nag un flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb wedi'i chlustnodi, neu grant bloc) ac mae'n rhoi disgresiwn llawn i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Fformiwla Barnett sy'n pennu'r newidiadau mewn darpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath.
[9] Trysorlys EM, ***Budget2011***, Mawrth 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

Mae **ffigur 1** yn dangos y newid mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant a reolir[10] ym mloc Cymru dros amser, gan ddangos pa mor ddifrifol yw'r gostyngiadau i'r bloc ers blwyddyn ariannol 2009-10 ac effaith y gostyngiadau ar wariant cyhoeddus.

**Ffigur 1: Newid canrannol ym mloc Cymru 1999-2000 i 2014-15 mewn termau real, (1999-2000 fel blwyddyn cyfeirio)**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Cafodd cylch cyllideb 2011-12 ei gyflwyno yng nghyd-destun yr adolygiad o wariant a'r gostyngiadau i floc Cymru.  Ar yr adeg hon, roedd yr economi wedi dechrau dangos arwyddion ei bod yn gwella ar ôl y dirywiad.  Roedd twf CMC yn gryfach na'r disgwyl ac roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb am y Gyllideb wedi diwygio ei rhagolygon am i fyny.[11]  Yn y tymor canolig, roedd disgwyl i chwyddiant aros oddeutu ei lefel targed o 2 y cant (CPI), yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn TAW.  At ei gilydd, roedd disgwyl i'r economi wella ar ôl y dirwasgiad, ond yn gymharol araf.

Fodd bynnag, yn ystod 2011 mae twf economaidd wedi cael ei lesteirio i ryw raddau gan ddigwyddiadau byd-eang, gan gynnwys digwyddiadau annisgwyl i brisiau olew, y daeargryn yn Japan a'r argyfwng dyled sofran yn ardal yr Ewro.

[10] **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** – cyfanswm cyfun dwy elfen cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a therfynau gwariant adrannol (DEL).
[11] Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, ***Economic and Fiscal Outlook***, Mawrth 2011.  Caiff y cyhoeddiad hwn ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2011. [fel ar 21 Hydref 2011]

Mae'r ffactorau hyn, law yn llaw â'r mesurau cynildeb mewn nifer o wledydd Ewropeaidd wedi arwain at ddiwygio'r rhagolygon. O ganlyniad, caiff cyllideb

ddrafft 2012-13 ei chyflwyno mewn hinsawdd o ansicrwydd economaidd cynyddol, ymysg tybiaethau o ddarlun economaidd gwaeth ac ofnau am ddirwasgiad pellach.

Mae'r adrannau canlynol yn trin ac yn trafod y newidiadau yn y rhagolygon sy'n ymwneud â thwf economaidd, chwyddiant a'r farchnad lafur.

## *2.1. Rhagolygon twf*

Mae Trysorlys EM yn cyhoeddi rhagolygon ar gyfer economi'r DU sy'n crynhoi safbwyntiau'r amryfal sefydliadau sy'n llunio rhagolygon economaidd. Ym mis Ionawr 2011, adeg Cyllideb Derfynol 2011-12, roedd y rhagolygon ar gyfer Economi'r DU yn dangos ar gyfartaledd rhagolwg o dwf o 2.0% CMC ar gyfer 2011.[12] Mae fersiwn diweddaraf y cyhoeddiad hwn[13] yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer 2011 wedi newid yn sylweddol, gyda'r amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer twf CMC yn cael eu newid i lawr i 0.9%, a rhagolygon ar gyfer 2012 yn 1.3%. Roedd adroddiad Rhagolwg Ariannol ac Economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau[14] yn rhagweld y byddai CMC yn tyfu 1.7% yn 2011 a 2.5% yn 2012. Fodd bynnag, mae data diweddaraf Trysorlys EM yn dangos bod CMC yn ail chwarter 2011 ddim ond 0.6% yn uwch na'r un cyfnod yn 2010.[15]

Mae gwerth ychwanegol crynswth (GYC) rhanbarthol yn rhoi amcangyfrif o werth yr economi ar draws rhanbarthau gwahanol (ac is-ranbarthau) y DU. Caiff ystadegau GYC eu rhyddhau ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, felly cafodd yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ei rhyddhau ym mis Rhagfyr 2010 ac mae'r ffigurau GYC rhanbarthol yn berthnasol i 2009.[16] Mae'r rhain yn dangos:

- Roedd GYC yng Nghymru yn 2009 yn £44.5 biliwn, sef 2.2% yn is na 2008, roedd GYC ar gyfer y DU (ac eithrio y tu allan i'r rhanbarthau) wedi disgyn 2.1%.
- Roedd GYC y pen yng Nghymru yn 2009 yn £14,842, sef 2.5% yn is na 2008, ac roedd GYC y pen ar gyfer y DU (ac eithrio y tu allan i'r rhanbarthau) wedi disgyn 2.7%.

---

[12] Trysorlys EM, ***Forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts***, Ionawr 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[13] Trysorlys EM, ***forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[14] Swyddfa Cyfrifoldeb am y Gyllideb, ***economic and Fiscal Outlook***, Mawrth 2011. Caiff y cyhoeddiad hwn ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2011. [fel ar 21 Hydref 2011]
[15] Trysorlys EM, Dangosyddion economaidd wythnosol, ***pocket Databank 13/10/11***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[16] StatsCymru, ***[000114] Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC), yn ôl gwledydd y DU***, Rhagfyr 2010 [fel ar 21 Hydref 2011]

- Roedd GYC y pen yng Nghymru yn 2009 yn 74.3% o gyfartaledd y DU, sef yr isaf o blith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr. Nid yw safle Cymru yn hyn o beth wedi newid er 1998 pan ddisgynnodd yn is na Gogledd Iwerddon.

## *2.2. Y Farchnad Lafur*

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o'r Arolwg o'r Llafurlu yn amcangyfrif ar gyfer y 3 mis hyd at fis Awst 2011[17]:


- Bod y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru yn 67.3%, a oedd 0.1 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod blwyddyn yn flaenorol. Roedd cyfartaledd y DU yn 70.4%, a oedd 0.3 pwynt canran yn is na'r un cyfnod blwyddyn yn flaenorol.
- Roedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn 9.0% o'r boblogaeth economaidd weithgar, a oedd 0.9 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer y DU drwyddi draw, roedd yn 8.1%, a oedd 0.3 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.
- Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru yn 25.9%, a oedd 0.7 pwynt canran yn is na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfartaledd y DU yn 23.3%, a oedd 0.1 pwynt canran yn uwch na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.
- Roedd canran y rhai a oedd yn hawlio budd-dal diweithdra ym mis Medi 2011 yng Nghymru yn 5.6% o'r gweithlu, a oedd 0.5 pwynt canran yn uwch na mis Medi 2010 (5.0% oedd cyfradd y DU, a oedd 0.4 pwynt canran yn uwch dros y flwyddyn).

Mewn perthynas â chyflogaeth yn y sector cyhoeddus, roedd rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb am y Gyllideb yn amcangyfrif y byddai hyn yn disgyn 330,000 ar draws y DU, o ganlyniad i'r gostyngiadau mewn gwariant dros y pedair blynedd hyd at 2014-15.[18] Mae adroddiad diweddar[19] yn awgrymu bod 240,000 yn llai o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus ledled y DU yn ystod ail chwarter 2011, wrth gymharu â'r un cyfnod yn 2010. Mae hyn yn awgrymu bod colli swyddi yn y sector cyhoeddus wedi bod yn gynt na'r disgwyl. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod colli swyddi yn y sector cyhoeddus yn y gweinyddiaethau datganoledig wedi bod yn llai difrifol nag mewn ardaloedd eraill o'r DU, fel y gwelir yn **ffigur 2**.

---

[17] Llywodraeth Cymru, ***Ystadegau Economaidd Allweddol***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[18] Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, ***economic and Fiscal Outlook***, Mawrth 2011. Caiff y cyhoeddiad hwn ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2011. [fel ar 21 Hydref 2011]
[19] PwC, ***Spending Review: One Year On***, 20 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

**Ffigur 2: Newid mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, fesul rhanbarth yn y flwyddyn hyd at ail chwarter 2011 (canran)**




Ffynhonnell: Atgynhyrchwyd o PwC, *Spending Review: One Year On*, Hydref 2011

## *2.3. Chwyddiant*

Ym mis Ionawr 2011, adeg Cyllideb Derfynol 2011-12, roedd y rhagolygon ar gyfer economi'r DU yn dangos rhagolwg cyfartalog o 3.0% ar gyfer CPI a 3.9% ar gyfer RPI yn 2011.[20] Mae fersiwn diweddaraf y cyhoeddiad hwn[21] yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer 2011 wedi newid yn sylweddol, gyda'r amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer CPI a RPI yn 4.6% ar gyfer y nailll ac yn 5.2% ar gyfer y llall. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2012 yn dal yn fwy optimistaidd, gyda'r rhagolygon cyfartalog ar gyfer y CPI a'r RPI a ddisgwylir yn 2.2% ar gyfer y naill ac yn 2.7% ar gyfer y llall.

Roedd adroddiad Rhagolwg Economaidd ac Ariannol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau[22] yn datgan bod disgwyl i chwyddiant CPI aros rhwng 4 a 5 y cant dros y rhan fwyaf o 2011 ac y byddai'n disgyn yn ôl yn nes at ei lefel targed o ddau y cant yn y tymor canolig.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, ym mis Medi 2011, fod CPI yn 5.2% a bod RPI yn 5.6%.[23] Nid yw CPI erioed wedi bod

---

[20] Trysorlys EM, ***Forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts***, Ionawr 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[21] Trysorlys EM, ***Forecasts for the UK Economy: A comparison of independent forecasts***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

[22] Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, ***economic and Fiscal Outlook***, Mawrth 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[23] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ***consumer Price Indices September 2011***, 18 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

yn uwch na hyn ers dechrau'r gyfres swyddogol ym mis Ionawr 1997,[24] ond cyrhaeddodd y lefel hon ym mis Medi 2008, ac mae RPI yn uwch na fu ers 20 mlynedd. Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n rhannol oherwydd y cynnydd eithriadol mewn prisiau ynni a'r cynnydd mewn TAW.

## 3. Golwg Gyffredinol ar floc Cymru

Mae Atodlen 6 i Gynigion y Gyllideb Ddrafft yn dangos bod Trysorlys EM wedi darparu £15.4 biliwn ar gyfer cyfanswm bloc Cymru[25] ym mlwyddyn ariannol 2012-13.[26]

Wrth edrych ar gyllideb ddrafft 2012-13 dylid nodi bod y ffigurau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fel llinell sylfaen 2011-12 yn seiliedig ar y rheini yng Nghyllideb Atodol 2011-12,[27] wedi'u hailddatgan i dynnu dyraniadau nad ydynt yn ailddigwydd. Dyma sut mae'r ailddatgan wedi newid y ffigurau:

- Y portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth: mae llinell sylfaen 2011-12 £150,000 yn is na dyraniad cyllideb atodol 2011-12. Mae hyn yn sgil tynnu dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
- Y portffolio Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: mae llinell sylfaen 2011-12 £8.8 miliwn yn is na dyraniad cyllideb atodol 2011-12. Mae hyn yn sgil tynnu dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â chostau etholiadau'r Cynulliad.

Ceir cynnydd cyfatebol o £8.95 miliwn yn llinell sylfaen y cronfeydd refeniw i gyfrif am yr ailddatgan hwn.

### *3.1. Cyfanswm y gwariant a reolir*

Mae **tabl 3** yn dangos cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru (hy dyraniadau i Lywodraeth Cymru, a darpariaeth ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol[28], cronfeydd wrth gefn a ffioedd uniongyrchol, ond heb gynnwys darpariaeth ar gyfer Swyddfa Cymru).

Mae cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru ar gyfer 2012-13 yn £15.4 biliwn, sef cynnydd o £14.5 miliwn, neu 0.1% yn uwch na 2011-12. Mewn termau

---

[24] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ***statistical Bulletin Briefing Note: Consumer price indices***, Medi 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[25] Gan gynnwys terfynau gwariant adrannol a gwariant a reolir yn flynyddol.
[26] Llywodraeth Cymru, ***Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (Atodlen 6 tudalen 24) [fel ar 21 Hydref 2011]
[27] Llywodraeth Cymru, ***Cyllideb Atodol 2011-12***, Mehefin 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[28] Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

real mae hyn yn golygu gostyngiad o 2.3%. Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15) ceir gostyngiad cyffredinol o £162 miliwn yng nghyfanswm y gwariant a reolir, neu 1.1%. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o 6.5%.

**Tabl 3: Cyfanswm y gwariant a reolir ym mloc Cymru, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus 2011-12 i 2014-15**

| Prif Grŵp Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,420,941 | 6,469,006 | 6,374,272 | 6,493,538 | 48,065 | 0.7 | -109,716 | -1.7 | 72,597 | 1.1 | -414,508 | -6.5 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,153,048 | 5,168,827 | 5,156,818 | 5,207,509 | 15,779 | 0.3 | -110,290 | -2.1 | 54,461 | 1.1 | -336,174 | -6.5 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 321,636 | 312,728 | 305,200 | 305,200 | -8,908 | -2.8 | -16,536 | -5.1 | -16,436 | -5.1 | -39,330 | -12.2 |
| Addysg a Sgiliau | 1,925,476 | 1,960,048 | 1,979,943 | 1,979,603 | 34,572 | 1.8 | -13,234 | -0.7 | 54,127 | 2.8 | -94,371 | -4.9 |
| Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 329,709 | 326,812 | 319,993 | 323,439 | -2,897 | -0.9 | -10,868 | -3.3 | -6,270 | -1.9 | -30,532 | -9.3 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 531,025 | 514,330 | 489,901 | 489,947 | -16,695 | -3.1 | -29,240 | -5.5 | -41,078 | -7.7 | -77,831 | -14.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 361,450 | 348,082 | 330,846 | 331,364 | -13,368 | -3.7 | -21,858 | -6.0 | -30,086 | -8.3 | -54,943 | -15.2 |
| **Cyfanswm Dyraniadau TME Llywodraeth Cymru** | **15,043,285** | **15,099,833** | **14,956,973** | **15,130,600** | **56,548** | **0.4** | **-311,741** | **-2.1** | **87,315** | **0.6** | **-1,047,689** | **-7.0** |
| Cronfeydd Refeniw | 213,834 | 195,130 | 243,674 | 269,839 | -18,704 | -8.7 | -23,463 | -11.0 | 56,005 | 26.2 | 35,763 | 16.7 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 69,880 | 50,449 | 50,449 | 92,162 | -19,431 | -27.8 | -20,661 | -29.6 | 22,282 | 31.9 | 15,369 | 22.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 49,322 | 45,229 | 45,521 | 45,521 | -4,093 | -8.3 | -5,196 | -10.5 | -3,801 | -7.7 | -7,216 | -14.6 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 0 | 0.0 | -118 | -2.4 | 0 | 0.0 | -364 | -7.5 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,854 | 3,961 | 3,960 | 3,960 | 107 | 2.8 | 10 | 0.3 | 106 | 2.8 | -191 | -5.0 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 631 | 675 | 675 | 675 | 44 | 7.0 | 28 | 4.4 | 44 | 7.0 | -7 | -1.1 |
| **Cyfanswm TME Cymru** | **15,385,659** | **15,400,130** | **15,306,105** | **15,547,610** | **14,471** | **0.1** | **-361,142** | **-2.3** | **161,951** | **1.1** | **-1,004,335** | **-6.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## *3.2. Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*

Mae **tabl 4** yn dangos cyfanswm DEL (refeniw a chyfalaf) ym mloc Cymru. Mae'r tabl yn dangos bod cyfanswm DEL yn y bloc ar gyfer 2012-13 yn £15 biliwn, sydd £44.9 miliwn neu 0.3% yn is na 2011-12. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o 2.7%. Dros gyfnod y gyllideb mae cyfanswm DEL yn y bloc yn codi £86 miliwn, neu 0.6%. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £1 biliwn, neu 7.0%.

Cyfanswm DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru (neu brif grwpiau gwariant):[29]

- Gostyngiad o £2.8 miliwn, rhwng 2011-12 a 2012-13, mae hyn yn golygu nad oes newid canrannol. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o 1.6%.
- Cynnydd o £11.4 miliwn neu 0.1% dros gyfnod y gyllideb. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o £1 biliwn, neu 7.4%.

Mae **tabl 4** hefyd yn dangos bod cyfanswm y cronfeydd yn 2012-13 yn £245.6 miliwn, neu'n 1.6% o'r cyfanswm DEL.

Mae **ffigur 3** yn dangos cyfran dyraniad cyfanswm DEL i bob prif grŵp gwariant yn 2012-13. Mae'n dangos, o'u hystyried gyda'i gilydd, bod y prif grwpiau gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynrychioli oddeutu 78 y cant o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru.


Mae **ffigur 4** yn dangos y dyraniadau cyfanswm DEL i bob prif grŵp gwariant ym mhob blwyddyn yng nghyfnod y gyllideb, ac mae **ffigur 5** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm DEL i bob prif grŵp gwariant rhwng 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yn dangos:

- Bod y gostyngiad canrannol mwyaf mewn cyfanswm DEL rhwng 2011-12 a 2012-13 yn y prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth, sef gostyngiad o 4.6%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 7.0%.
- Bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, gyda chynnydd o 0.8%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 1.6%.

---


[29] **Prif grŵp gwariant (MEG)** – Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu yn nifer o lefelau o fanylion er mwyn monitro a rheoli. Prif grwpiau gwariant (MEG) yw lefel uchaf y manylion hyn ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gwmpasau'r Gweinidogion. Dan y prif grŵp gwariant, mae'r gwariant yn cael ei rannu yn ôl meysydd rhaglenni gwariant (SPAs) ac, o fewn y rhain, camau gweithredu.

**Ffigur 3: Cyfran dyraniad cyfanswm DEL i bob prif grŵp gwariant yn 2012-13**





Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

**Ffigur 4: Cyfanswm DEL yn ôl prif grŵp gwriant mewn termau arian parod, 2011-12 i 2014-15**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

**Ffigur 5: Newid canrannol mewn cyfanswm DEL yn ôl prif grŵp gwariant mewn termau arian parod, 2011-12 i 2012-13**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

**Tabl 4: Cyfanswm DEL ym mloc Cymru, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus 2011-12 i 2014-15**

| Prif Grŵp Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,236,242 | 6,287,226 | 6,293,758 | 6,294,146 | 50,984 | 0.8 | -102,363 | -1.6 | 57,904 | 0.9 | -414,244 | -6.6 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,115,327 | 5,104,513 | 5,131,128 | 5,154,269 | -10,814 | -0.2 | -135,314 | -2.6 | 38,942 | 0.8 | -347,699 | -6.8 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 280,234 | 271,326 | 263,798 | 263,798 | -8,908 | -3.2 | -15,526 | -5.5 | -16,436 | -5.9 | -36,224 | -12.9 |
| Addysg a Sgiliau | 1,800,174 | 1,809,523 | 1,818,658 | 1,826,293 | 9,349 | 0.5 | -34,786 | -1.9 | 26,119 | 1.5 | -110,878 | -6.2 |
| Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 329,709 | 326,812 | 319,993 | 323,439 | -2,897 | -0.9 | -10,868 | -3.3 | -6,270 | -1.9 | -30,532 | -9.3 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 600,760 | 572,840 | 542,161 | 542,207 | -27,920 | -4.6 | -41,892 | -7.0 | -58,553 | -9.7 | -99,226 | -16.5 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 362,550 | 349,919 | 332,212 | 332,212 | -12,631 | -3.5 | -21,166 | -5.8 | -30,338 | -8.4 | -55,258 | -15.2 |
| **Cyfanswm Dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru** | **14,724,996** | **14,722,159** | **14,701,708** | **14,736,364** | **-2,837** | **-0.0** | **-361,914** | **-2.5** | **11,368** | **0.1** | **-1,094,063** | **-7.4** |
| Cronfeydd Refeniw | 213,834 | 195,130 | 243,674 | 269,839 | -18,704 | -8.7 | -23,463 | -11.0 | 56,005 | 26.2 | 35,763 | 16.7 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 69,880 | 50,449 | 50,449 | 92,162 | -19,431 | -27.8 | -20,661 | -29.6 | 22,282 | 31.9 | 15,369 | 22.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 48,822 | 44,729 | 45,021 | 45,021 | -4,093 | -8.4 | -5,184 | -10.6 | -3,801 | -7.8 | -7,178 | -14.7 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 0 | 0.0 | -118 | -2.4 | 0 | 0.0 | -364 | -7.5 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,854 | 3,961 | 3,960 | 3,960 | 107 | 2.8 | 10 | 0.3 | 106 | 2.8 | -191 | -5.0 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 631 | 675 | 675 | 675 | 44 | 7.0 | 28 | 4.4 | 44 | 7.0 | -7 | -1.1 |
| **Cyfanswm DEL Cymru** | **15,066,870** | **15,021,956** | **15,050,340** | **15,152,874** | **-44,914** | **-0.3** | **-411,303** | **-2.7** | **86,004** | **0.6** | **-1,050,671** | **-7.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

### *3.3. DEL Refeniw*

Mae **tabl 5** yn dangos y DEL refeniw ym mloc Cymru. Mae'n dangos bod y DEL refeniw yn y bloc ar gyfer 2012-13 yn £13.8 biliwn, sydd £57.6 miliwn, neu 0.4% yn uwch na 2011-12. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o 2.0%. Dros gyfnod y gyllideb, mae DEL refeniw yn y bloc yn codi £270.4 miliwn, neu 2.0%. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £783.3 miliwn, neu 5.7%.


DEL refeniw a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Cynnydd o £76.4 miliwn, neu 0.6% rhwng 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o 1.9%.
- Cynnydd o £214.2 miliwn, neu 1.6% dros gyfnod y gyllideb. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o £815.2 miliwn, neu 6.0%.

Mae **ffigur 6** yn dangos y newid canrannol mewn DEL refeniw i bob prif grŵp gwariant rhwng 2011-12 a 2012-13 wedi'i osod yn erbyn y newid cyffredinol mewn DEL refeniw (0.6%). Mae'n dangos:

- Bod y gostyngiad canrannol mwyaf mewn DEL refeniw rhwng 2011-12 a 2012-13 yn y prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, gyda gostyngiad o 3.1%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 5.5%.
- Bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, gyda chynnydd o 1.2%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 1.3%.

**Ffigur 6: Newid canrannol mewn DEL refeniw yn ôl prif grŵp gwariant mewn termau arian parod, 2011-12 i 2012-13**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

**Tabl 5: DEL refeniw ym mloc Cymru, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus 2011-12 i 2014-15**

| Prif Grŵp Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 5,974,139 | 6,046,623 | 6,079,280 | 6,079,668 | 72,484 | 1.2 | -74,995 | -1.3 | 105,529 | 1.8 | -350,530 | -5.9 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 4,834,155 | 4,842,872 | 4,897,837 | 4,920,978 | 8,717 | 0.2 | -109,402 | -2.3 | 86,823 | 1.8 | -282,318 | -5.8 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 185,646 | 182,870 | 184,428 | 184,428 | -2,776 | -1.5 | -7,236 | -3.9 | -1,218 | -0.7 | -15,053 | -8.1 |
| Addysg a Sgiliau | 1,630,201 | 1,648,180 | 1,674,824 | 1,682,459 | 17,979 | 1.1 | -22,221 | -1.4 | 52,258 | 3.2 | -73,950 | -4.5 |
| Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 269,067 | 265,183 | 265,755 | 269,201 | -3,884 | -1.4 | -10,352 | -3.8 | 134 | 0.0 | -20,060 | -7.5 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 284,022 | 278,282 | 279,597 | 279,643 | -5,740 | -2.0 | -12,527 | -4.4 | -4,379 | -1.5 | -25,356 | -8.9 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 331,830 | 321,455 | 306,899 | 306,899 | -10,375 | -3.1 | -18,215 | -5.5 | -24,931 | -7.5 | -47,953 | -14.5 |
| **Cyfanswm DEL Refeniw Llywodraeth Cymru** | **13,509,060** | **13,585,465** | **13,688,620** | **13,723,276** | **76,405** | **0.6** | **-254,948** | **-1.9** | **214,216** | **1.6** | **-815,219** | **-6.0** |
| Cronfeydd Refeniw | 213,834 | 195,130 | 243,674 | 269,839 | -18,704 | -8.7 | -23,463 | -11.0 | 56,005 | 26.2 | 35,763 | 16.7 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 44,246 | 43,979 | 44,271 | 44,271 | -267 | -0.6 | -1,340 | -3.0 | 25 | 0.1 | -3,296 | -7.4 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 4,853 | 0 | 0.0 | -118 | -2.4 | 0 | 0.0 | -364 | -7.5 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,839 | 3,947 | 3,947 | 3,947 | 108 | 2.8 | 12 | 0.3 | 108 | 2.8 | -188 | -4.9 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 631 | 675 | 675 | 675 | 44 | 7.0 | 28 | 4.4 | 44 | 7.0 | -7 | -1.1 |
| **Cyfanswm DEL Refeniw Cymru** | **13,776,463** | **13,834,049** | **13,986,040** | **14,046,861** | **57,586** | **0.4** | **-279,830** | **-2.0** | **270,398** | **2.0** | **-783,311** | **-5.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## *3.4. DEL Cyfalaf*

Mae **tabl 6** yn dangos y DEL cyfalaf ym mloc Cymru. Mae'n dangos bod DEL cyfalaf yn y bloc ar gyfer 2012-13 yn £1.2 biliwn, sydd £102.5 miliwn, neu 7.9% yn is na 2011-12. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o 10.2%. Dros gyfnod y gyllideb mae DEL cyfalaf yn y bloc yn disgyn £184.4 miliwn, neu 14.3%. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £267.4 miliwn, neu 20.7%.

DEL cyfalaf a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Gostyngiad o £79.2 miliwn, neu 6.5% rhwng 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o 8.8%.
- Gostyngiad o £202.8 miliwn, neu 16.7% dros gyfnod y gyllideb. Mae hyn yn golygu gostyngiad termau real o £278.8 miliwn, neu 22.9%.

Mae **ffigur 7** yn dangos y newid canrannol mewn DEL cyfalaf i bob prif grŵp gwariant rhwng 2011-12 a 2012-13 wedi'i osod yn erbyn y newid cyffredinol mewn DEL cyfalaf (-6.5%). Mae'n dangos:

- Gwelir y gostyngiad canrannol mwyaf yn y prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, gyda gostyngiad o 8.2%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 10.4%.
- Gwelir yr unig gynnydd canrannol mewn DEL cyfalaf rhwng 2011-12 a 2012-13 yn y prif grŵp gwariant Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, gyda chynnydd o 1.6%, sy'n golygu gostyngiad termau real o 0.9%.

Fel y gwelir yn **nhabl 2**, ar elfen cyfalaf bloc Cymru y cafodd yr adolygiad o wariant yr effaith fwyaf. Yng nghyllideb ddrafft 2011-12 dywedwyd bod Llywodraeth Cymru '*yn pryderu'n fawr am faint y toriadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud i gyllidebau cyfalaf*.'[30] Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft gyfredol yn datgan mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf:


> Wrth i ni ystyried pwerau benthyca, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau amgenach o wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau cyfredol a lleddfu effeithiau'r gostyngiad sylweddol yn ein cyllidebau cyfalaf.
>
> Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i adolygu a gweithredu dulliau o weithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau cymaint o fuddsoddiad cyfalaf â phosibl. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o reoli ein hasedau'n effeithlon ac yn effeithiol. Bydd gwario strategol yn ganolog i'n dull ni o weithredu – sicrhau arian newydd drwy ddulliau arloesol a defnyddio'r cyllid sydd gennym eisoes mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.[31]

---

[30] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2011-12***, Tachwedd 2010 (tudalen 29) [fel ar 21 Hydref 2011]
[31] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 5) [fel ar 21 Hydref 2011]

Yn ei datganiad llafar a gyflwynwyd gyda'r gyllideb ddrafft, dywedodd y Gweinidog Cyllid ei bod eisoes wedi codi buddsoddiad drwy drosglwyddo cyllid refeniw i gyfalaf.[32] Yn ystod ei hymddangosiad gerbron Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ar 12 Hydref 2011, eglurodd fod disgwyl y byddai oddeutu £57 miliwn o gyllid refeniw yn cael ei drosglwyddo i gyfalaf.[33]

**Ffigur 7: Newid canrannol mewn DEL cyfalaf yn ôl prif grŵp gwariant mewn termau arian parod, 2011-12 i 2012-13**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

[32] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), ***Cyllideb Ddrafft***, Datganiad Llafar Cabinet, 4 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyllid, *Cofnod y Trafodion [para 22]*, 12 Hydref 2011 [nid oedd y ddolen ar gael adeg ysgrifennu]

## Tabl 6: DEL cyfalaf ym mloc Cymru, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus 2011-12 i 2014-15

| Prif Grŵp Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 262,103 | 240,603 | 214,478 | 214,478 | -21,500 | -8.2 | -27,368 | -10.4 | -47,625 | -18.2 | -63,714 | -24.3 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 281,172 | 261,641 | 233,291 | 233,291 | -19,531 | -6.9 | -25,912 | -9.2 | -47,881 | -17.0 | -65,381 | -23.3 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 94,588 | 88,456 | 79,370 | 79,370 | -6,132 | -6.5 | -8,289 | -8.8 | -15,218 | -16.1 | -21,172 | -22.4 |
| Addysg a Sgiliau | 169,973 | 161,343 | 143,834 | 143,834 | -8,630 | -5.1 | -12,565 | -7.4 | -26,139 | -15.4 | -36,929 | -21.7 |
| Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 60,642 | 61,629 | 54,238 | 54,238 | 987 | 1.6 | -516 | -0.9 | -6,404 | -10.6 | -10,473 | -17.3 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 316,738 | 294,558 | 262,564 | 262,564 | -22,180 | -7.0 | -29,364 | -9.3 | -54,174 | -17.1 | -73,870 | -23.3 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 30,720 | 28,464 | 25,313 | 25,313 | -2,256 | -7.3 | -2,950 | -9.6 | -5,407 | -17.6 | -7,306 | -23.8 |
| **Cyfanswm Dyraniadau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **1,215,936** | **1,136,694** | **1,013,088** | **1,013,088** | **-79,242** | **-6.5** | **-106,966** | **-8.8** | **-202,848** | **-16.7** | **-278,844** | **-22.9** |
| Cronfeydd Refeniw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cronfeydd Cyfalaf | 69,880 | 50,449 | 50,449 | 92,162 | -19,431 | -27.8 | -20,661 | -29.6 | 22,282 | 31.9 | 15,369 | 22.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 4,576 | 750 | 750 | 750 | -3,826 | -83.6 | -3,844 | -84.0 | -3,826 | -83.6 | -3,882 | -84.8 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 15 | 14 | 13 | 13 | -1 | -6.7 | -1 | -8.9 | -2 | -13.3 | -3 | -19.8 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm DEL Cyfalaf Cymru** | **1,290,407** | **1,187,907** | **1,064,300** | **1,106,013** | **-102,500** | **-7.9** | **-131,473** | **-10.2** | **-184,394** | **-14.3** | **-267,360** | **-20.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

### *3.5. Gwariant a Reolir yn Flynyddol*[34]

Mae **tabl 7** yn dangos y Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mloc Cymru. Mae'n dangos bod y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y bloc ar gyfer 2012-13 yn £378.2 miliwn, sydd £59.4 miliwn, neu 18.6%, yn uwch na 2011-12. Mewn termau real mae hyn yn golygu cynnydd o 15.7%. Dros gyfnod y gyllideb mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y bloc yn codi £75.9 miliwn, neu 23.8%. Mewn termau real mae hyn yn golygu cynnydd o £46.3 miliwn, neu 14.5%.

[34] **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – Mae'n anoddach rhagweld gwariant a reolir yn flynyddol na'r hyn sydd yn y terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant sydd fel rheol yn cael ei arwain gan y galw ac felly nid yw'n rhesymol i ddarpariaeth fod yn rhwym wrth derfynau mwy nag un flwyddyn, (er enghraifft, mater benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff hyn ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Does dimmodd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol i'r diben y cafodd ei neilltuo iddo; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn dros ei ddyrannu. Ar ben hynny, mae modd tynnu gwariant a reolir yn flynyddol o Drysorlys EM os bydd angen, ac mae'n rhaid dychwelyd unrhyw wariant a reolir yn flynyddol na chafodd ei wario.

**Tabl 7: Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mloc Cymru, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus 2011-12 i 2014-15**

| Prif Grŵp Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 184,699 | 181,780 | 80,514 | 199,392 | -2,919 | -1.6 | -7,353 | -4.0 | 14,693 | 8.0 | -264 | -0.1 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 37,721 | 64,314 | 25,690 | 53,240 | 26,593 | 70.5 | 25,024 | 66.3 | 15,519 | 41.1 | 11,525 | 30.6 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 0 | 0.0 | -1,010 | -2.4 | 0 | 0.0 | -3,106 | -7.5 |
| Addysg a Sgiliau | 125,302 | 150,525 | 161,285 | 153,310 | 25,223 | 20.1 | 21,552 | 17.2 | 28,008 | 22.4 | 16,508 | 13.2 |
| Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | -69,735 | -58,510 | -52,260 | -52,260 | 11,225 | -16.1 | 12,652 | -18.1 | 17,475 | -25.1 | 21,395 | -30.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -1,100 | -1,837 | -1,366 | -848 | -737 | 67.0 | -692 | 62.9 | 252 | -22.9 | 316 | -28.7 |
| **Cyfanswm Dyraniadau AME Llywodraeth Cymru** | **318,289** | **377,674** | **255,265** | **394,236** | **59,385** | **18.7** | **50,173** | **15.8** | **75,947** | **23.9** | **46,374** | **14.6** |
| Comisiwn y Cynulliad | 500 | 500 | 500 | 500 | 0 | 0.0 | -12 | -2.4 | 0 | 0.0 | -38 | -7.5 |
| **Cyfanswn AME Cymru** | **318,789** | **378,174** | **255,765** | **394,736** | **59,385** | **18.6** | **50,161** | **15.7** | **75,947** | **23.8** | **46,336** | **14.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 4. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y ffigurau cyffredinol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu[35]/meysydd rhaglenni gwariant[36] y Prif Grŵp Gwariant.

Mae **tabl 8** yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar lefel maes rhaglenni gwariant, gan ddangos newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae'r prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn cyfrif am oddeutu **42 y cant** o ddyraniad cyfanswm DEL Llywodraeth Cymru ym mhob blwyddyn o gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £51 miliwn neu 0.8% mewn termau arian parod.  Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £102.4 miliwn neu 1.6%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £57.9 miliwn, neu 0.9% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £414.2 miliwn, neu 6.6% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL refeniw ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £72.5 miliwn neu 1.2% mewn termau arian parod.  Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £75 miliwn neu 1.3%.

[35] **Camau gweithredu** - Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu yn nifer o lefelau o fanylion er mwyn monitro a rheoli. Gweithredoedd yw'r lefel mwyaf manwl a gyhoeddir yn nogfennau'r gyllideb ac maent yn dangos meysydd mentrau neu bolisïau. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw gweithredoedd o reidrwydd yn rhoi manylion dyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol.

[36] **Maes rhaglenni gwariant (SPA)** - Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu yn nifer o lefelau o fanylion er mwyn monitro a rheoli. Meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylion dan y prif grwpiau gwariant ac maent yn diffinio grwpiau gwahanol o ddyraniadau yn ôl y math o wasanaethau a gyflenwir.

- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £105.5 miliwn, neu 1.8% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £350.5 miliwn, neu 5.9% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL cyfalaf yn y prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £21.5 miliwn neu 8.2% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £27.4 miliwn neu 10.4%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £47.6 miliwn, neu 18.2% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £63.7 miliwn, neu 24.3% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £2.9 miliwn neu 1.6% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £7.4 miliwn neu 4.0%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £47.6 miliwn, neu 18.2% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £63.7 miliwn, neu 24.3% mewn termau real.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, a nodir eu bod wedi cael eu gwneud o'r cronfeydd wrth gefn canolog:

- Dyrannwyd £83 miliwn yn 2012-13 ac yn 2013-14 a £73 miliwn yn 2014-15 i'r cam gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd* ym Maes Rhaglenni Gwariant *Cyflenwi'r GIG*. Dywedir bod hyn mewn perthynas â chymorth strwythurol iechyd a bwriedir iddo roi byrddau iechyd lleol mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy.
- Dyrannwyd £15.3 miliwn yn 2012-13, a £16.6 miliwn ym mhob un o flynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15 i'r cam gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd* ym Maes Rhaglenni Gwariant *Cyflenwi'r GIG*. Dywedir bod hyn mewn perthynas â thriniaethau orthopedig.

- Dyrannwyd £5 miliwn yn 2012-13, £20 miliwn yn 2013-14 a £30 miliwn yn 2014-15 i'r cam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Cymdeithasol* mewn perthynas â Dechrau'n Deg.
- Mae £0.4 miliwn yn 2014-15 wedi cael ei ddyrannu mewn perthynas â phresgripsiynau am ddim. Credir bod hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Cyflenwi'r GIG*.

Ceir hefyd nifer o drosglwyddiadau refeniw rhwng camau gweithredu gwahanol ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, mae manylion y rhain yn **nhabl 9**. Ar ben y trosglwyddiadau mewnol hyn, bu'r trosglwyddiadau canlynol rhwng prif grwpiau gwariant hefyd:

- £11.1 miliwn o'r cam gweithredu *Oedolion a Phobl Hŷn* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Cymdeithasol* i'r prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â'r Grant Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r pecyn Camau Cyntaf; a
- £0.3 miliwn i'r cam gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Cyflenwi'r GIG*, o'r prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mewn perthynas â chostau rhedeg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

### *Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant a lefel camau gweithredu. Sylwer, lle caiff esboniadau eu rhoi am y newidiadau, bod y rhain wedi dod o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol[37] neu ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13.[38]

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Cyflenwi'r GIG*, sy'n cael cynnydd o £97.2 miliwn, neu 2 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £138.7 miliwn, neu 2.8% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[39] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Roedd papur y Gweinidog i'r

---

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***HSC(4)-08-11 papur 2: Cyllideb Ddrafft 2012-13 – Papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***, 20 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[38] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[39] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi manylion dyraniad ychwanegol i'r cam gweithredu hwn o £98.3 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â chymorth strwythurol iechyd a thriniaethau orthopedig. Mae hefyd yn rhoi manylion nifer o drosglwyddiadau yn y prif grŵp gwariant sy'n arwain at gynnydd net o £40.2 miliwn i'r cam gweithredu hwn. Yn ogystal â hyn, trosglwyddir £0.2 miliwn i mewn o brif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mewn perthynas â chostau rhedeg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Cymdeithasol*, sy'n gweld cynnydd o £8.4 miliwn, neu 8.9% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net o £6.3 miliwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[40] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae papur y Gweinidog yn egluro mai'r rheswm dros hyn yw dyraniad ychwanegol o £5 miliwn yn 2012-13 ar gyfer Dechrau'n Deg a throsglwyddo £1.3 miliwn rhwng camau gweithredu.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, mewn termau arian parod a chanrannol, yn y cam gweithredu *Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Cyllidebau Canolog Iechyd*, sy'n gweld gostyngiad o £6.8 miliwn, neu 41.7% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod gostyngiad net o £6.8 miliwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[41] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae papur y Gweinidog yn egluro mai'r rheswm am hyn yw nifer o drosglwyddiadau yn y prif grŵp gwariant
- Mewn perthynas â DEL cyfalaf, mae pob cam gweithredu yn gweld gostyngiad o 7 y cant yn 2012-13, gyda dau eithriad. Mae'r cam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Cymdeithasol* yn disgyn o £3.4 miliwn yn 2011-12 i ddim yn 2012-13, ac yn aros ar ddim dros gyfnod y gyllideb. Mae cam gweithredu cyfalaf *Cyngor Gofal Cymru* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Cymdeithasol* yn gostwng 4.3% mewn termau arian parod, o £23,000 yn 2011-12 i £22,000 yn 2012-13.
- O'r gostyngiadau DEL cyfalaf eraill yn 2012-13, yr un mwyaf arwyddocaol o ran arian parod yw'r gostyngiad o £17.3 miliwn i'w gam gweithredu *Cyflenwi'r GIG,* yn y Maes Rhaglenni Gwariant o'r un enw.

Mewn perthynas â chyfalaf, roedd papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi:

---

[40] i*bid*
[41] i*bid*

Mae Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan, sy'n cynnwys arian ar gyfer y Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Pharodrwydd am Argyfyngau Iechyd, yn seiliedig ar gynlluniau cyfredol ag ymrwymiadau cytundebol a chynlluniau y mae'r Gweinidog Iechyd blaenorol a'r BILlau wedi'u hamlygu fel blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd ariannol nesaf.
Mae'r Rhaglen yn ystyried dyraniadau'r gyllideb ddangosol a bennwyd yn ystod Ymarfer Asesu Ymchwil y llynedd, ac sy'n cynrychioli **gostyngiad sylweddol** mewn arian.[42]

[42] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***HSC(4)-08-11 papur 2: Cyllideb Ddrafft 2012-13 – Papur gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***, 20 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

**Tabl 8: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwriant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 5,407,503 | 5,491,962 | 5,507,030 | 5,497,418 | 84,459 | 1.6 | -49,491 | -0.9 | 89,915 | 1.7 | -322,467 | -6.0 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 212,185 | 205,374 | 205,374 | 205,374 | -6,811 | -3.2 | -11,820 | -5.6 | -6,811 | -3.2 | -22,217 | -10.5 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 155,592 | 157,548 | 157,548 | 157,548 | 1,956 | 1.3 | -1,887 | -1.2 | 1,956 | 1.3 | -9,862 | -6.3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 188,721 | 182,104 | 200,161 | 210,161 | -6,617 | -3.5 | -11,059 | -5.9 | 21,440 | 11.4 | 5,675 | 3.0 |
| CAFCASS Cymru | 10,138 | 9,635 | 9,167 | 9,167 | -503 | -5.0 | -738 | -7.3 | -971 | -9.6 | -1,659 | -16.4 |
| **CYFANSWM DEL REFENIW** | **5,974,139** | **6,046,623** | **6,079,280** | **6,079,668** | **72,484** | **1.2** | **-74,995** | **-1.3** | **105,529** | **1.8** | **-350,530** | **-5.9** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 247,573 | 230,279 | 205,275 | 205,275 | -17,294 | -7.0 | -22,911 | -9.3 | -42,298 | -17.1 | -57,696 | -23.3 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 5,418 | 5,039 | 4,492 | 4,492 | -379 | -7.0 | -502 | -9.3 | -926 | -17.1 | -1,263 | -23.3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,112 | 5,285 | 4,711 | 4,711 | -3,827 | -42.0 | -3,956 | -43.4 | -4,401 | -48.3 | -4,754 | -52.2 |
| **CYFANSWM DEL CYFALAF** | **262,103** | **240,603** | **214,478** | **214,478** | **-21,500** | **-8.2** | **-27,368** | **-10.4** | **-47,625** | **-18.2** | **-63,714** | **-24.3** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Amhariadau a Darpariaethau'r GIG | 184,699 | 181,780 | 80,514 | 199,392 | -2,919 | -1.6 | -7,353 | -4.0 | 14,693 | 8.0 | -264 | -0.1 |
| **CYFANSWM AME** | **184,699** | **181,780** | **80,514** | **199,392** | **-2,919** | **-1.6** | **-7,353** | **-4.0** | **14,693** | **8.0** | **-264** | **-0.1** |
| DEL Refeniw | 5,974,139 | 6,046,623 | 6,079,280 | 6,079,668 | 72,484 | 1.2 | -74,995 | -1.3 | 105,529 | 1.8 | -350,530 | -5.9 |
| DEL Cyfalaf | 262,103 | 240,603 | 214,478 | 214,478 | -21,500 | -8.2 | -27,368 | -10.4 | -47,625 | -18.2 | -63,714 | -24.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **6,236,242** | **6,287,226** | **6,293,758** | **6,294,146** | **50,984** | **0.8** | **-102,363** | **-1.6** | **57,904** | **0.9** | **-414,244** | **-6.6** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 184,699 | 181,780 | 80,514 | 199,392 | -2,919 | -1.6 | -7,353 | -4.0 | 14,693 | 8.0 | -264 | -0.1 |
| **CYFANSWM IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A PHLANT** | **6,420,941** | **6,469,006** | **6,374,272** | **6,493,538** | **48,065** | **0.7** | **-109,716** | **-1.7** | **72,597** | **1.1** | **-414,508** | **-6.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

**Tabl 9: Trosglwyddiadau rhwng camau gweithredu ym mhrif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn 2012-13**

| I | £m | O | £m | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 32.3 | SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | -32.3 | Cyllid seilwaith SIFT |
| SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 7.7 | SPA Cyllidebau Canolog Iechyd: Gweithred Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -7.7 | Cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl |
| SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 1.6 | SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth | -1.6 | Ymgyrch Cynllun Gwên |
| SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 1.2 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -1.2 | Cyllid ar gyfer CAMHS |
| SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 0.5 | SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | -0.5 | Mewn perthynas ag Ymwelwyr o Dramor |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 2.2 | SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | -2.2 | Ail-gydweddu cyllid ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | 0.9 | SPA Cyflenwi'r GIG: Gweithred Gweithredu Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | -0.9 | Cyllid ar gyfer camddefnyddio alcohol |
| SPA Cyllidebau Canolog Iechyd: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | 0.9 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -0.9 | Cyllid ar gyfer CAMHS |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | 0.2 | SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | -0.2 | Arolwg Bwyd a Maeth |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.5 | SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | -0.5 | Cyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.1 | SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth | -0.1 | Cyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 1 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | -1 | Cyllid i blant agored i niwed |
| SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Oedolion a Phobl Hŷn | 1.4 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -1.4 | Mewn perthynas ag awtistiaeth |
| SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau: Gweithred Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.5 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -0.5 | Sgrinio Smotiau Gwaed y Newydd-anedig |
| SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 1.3 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -1.3 | Cyfuno cyllidebau Plant mewn Angen Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd |
| SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Oedolion a Phobl Hŷn | 1.9 | SPA Gwasanaethau Cymdeithasol: Gweithred Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | -1.9 | Mewn perthynas â grantiau i awdurdodau lleol |
| **CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A PHLANT** | **54.2** | | **-54.2** | |

Ffynhonnell: Papur gan y Gweinidog iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Hydref 2011

## 5. Llywodraeth Leol a Chymunedau

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf i gamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y prif grŵp gwariant.

Mae **tabl 10** yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir yn y prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau ar lefel Meysydd Rhaglenni Gwariant, gan ddangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfrif am oddeutu **35 y** cant o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £10.8 miliwn neu 0.2% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £135.3 miliwn neu 2.6%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £38.9 miliwn, neu 0.8% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £347.7 miliwn, neu 6.8% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £8.7 miliwn neu 0.2% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £109.4 miliwn neu 2.3%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £86.8 miliwn, neu 1.8% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £282.3 miliwn, neu 5.8% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £19.5 miliwn neu 6.9% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £25.9 miliwn neu 9.2%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £47.9 miliwn, neu 17.0% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £65.4 miliwn, neu 23.3% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £26.6 miliwn neu 70.5% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu cynnydd o £25.0 miliwn neu 66.3%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £15.5 miliwn, neu 41.1% mewn termau arian parod, sy'n golygu cynnydd o £11.5 miliwn, neu 30.6% mewn termau real.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau, a nodir eu bod wedi cael eu gwneud o'r cronfeydd wrth gefn canolog:

- Mae £5 miliwn ym mhob un o flynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15 wedi cael ei ddyrannu mewn perthynas â darparu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Credir bod hyn wedi mynd i'r Maes Rhaglenni Gwariant *Cyllid Llywodraeth Leol*.[43]
- £0.7 miliwn yn 2014-15 mewn perthynas â Thocynnau Teithio Rhatach. Credir bod hwn wedi'i gynnwys yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)*, yn y cam gweithredu *Datblygu Teithio Cynaliadwy*.

[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2011 [nid oedd dolen ar gael adeg ysgrifennu]

- Mae £22.4 miliwn yn 2014-15 wedi mynd i'r grant cynnal refeniw (Maes Rhaglenni Gwariant *Cyllid Llywodraeth Leol,* cam gweithredu *Cyllid Llywodraeth Leol*) mewn perthynas â mwy o gyllid i ysgolion.

Bu'r trosglwyddo canlynol rhwng prif grwpiau gwariant hefyd:

- Mae £11.1 miliwn o'r cam gweithredu *Oedolion a Phobl Hŷn* yn y prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi mynd i'r grant cynnal refeniw (Maes Rhaglenni Gwariant *Cyllid Llywodraeth Leol,* cam gweithredu *Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol*), mewn perthynas â'r Grant Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r pecyn Camau Cyntaf.

### *Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu.

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Cyllid Llywodraeth Leol*, sy'n gweld cynnydd o £19.8 miliwn, neu 0.5% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £11.1 miliwn, neu 0.3% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[44] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Gellir gweld bod hyn oherwydd trosglwyddo i mewn o brif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, fel y manylir uchod.
- Y cynnydd canrannol mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yw'r cam gweithredu *Gyrru Cydweithredu Gwell* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth*, sy'n gweld cynnydd o £1.5 miliwn, neu ymhell dros 100 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[45] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae hyn yn debyg o fod oherwydd newidiadau strwythurol yn y prif grŵp gwariant i gydweddu cyllidebau yn y cynllun busnes adrannol a dod â chyllidebau ynghyd sy'n canolbwyntio ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.[46]
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, o ran arian parod ac yn ganrannol, yn y cam gweithredu *Gwasanaethau Prisio* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Polisi Trethi Lleol*, sy'n disgyn o £10.7 miliwn i ddim. Mae hwn yn

---

[44] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[45] *ibid*
[46] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 33) [fel ar 21 Hydref 2011]

un o nifer o Feysydd Rhaglenni Gwariant sy'n disgyn i ddim yn y gyllideb ddrafft, gan gynnwys: y Maes Rhaglenni Gwariant *Polisi Trethi Lleol* i gyd, y Maes Rhaglenni Gwariant *Fframweithiau Arolygu a Rheoleiddio*, y Maes Rhaglenni Gwariant *Cydweithio'n Lleol ac yn Rhanbarthol*, a'r Maes Rhaglenni Gwariant *Effeithlonrwydd ac Arloesi*. Nid yw'r camau gweithreduhyn yn dangos dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[47] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae'r gyllideb ddrafft yn datgan bod y rhain oherwydd newidiadau strwythurol yn y prif grŵp gwriant fel yr uchod.[48]

- Mewn perthynas â DEL cyfalaf yn 2012-13, mae'r cynnydd mwyaf o ran arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (Rheilffyrdd)* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwella Cysyllted Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)* sy'n codi £20 miliwn, neu 73.9% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £19.5 miliwn, neu 70.4% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[49] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13, a hynny oherwydd ail-broffilio prosiectau rheilffordd mawr.[50]
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 hefyd yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)*, yn y cam gweithredu *Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig)*, sy'n disgyn £19 miliwn, neu 33.5% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod gostyngiad net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £8.4 miliwn, neu 18.3% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[51] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13, a hynny oherwydd ail-broffilio costau adeiladu cynlluniau ffyrdd.[52]

Mewn perthynas ag elfennau trafnidiaeth prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau, dylid nodi bod papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn datgan:

> Nid yw'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu effaith bosibl blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Mae gwaith ar y gweill i flaenoriaethu ymyriadau yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y cyllid trafnidiaeth presennol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a bod lefel yr adnoddau yn gwella.[53]

---

[47] *ibid*
[48] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 33) [fel ar 21 Hydref 2011]
[49] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[50] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 33) [fel ar 21 Hydref 2011]
[51] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[52] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 33) [fel ar 21 Hydref 2011]
[53] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-07-11 Papur 1 - Tystiolaeth gan Carl Sargeant*** ac ***Atodiad A*** , 20 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

**Tabl 10: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllideb Ddrafft gwaelodlin 2011-12 | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,209,918 | 4,240,114 | 4,296,372 | 4,318,772 | 30,196 | 0.7 | -73,221 | -1.7 | 108,854 | 2.6 | -215,114 | -5.1 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 58,662 | 53,227 | 52,064 | 52,064 | -5,435 | -9.3 | -6,733 | -11.5 | -6,598 | -11.2 | -10,504 | -17.9 |
| Cymunedau Diogelach | 43,841 | 44,026 | 44,176 | 44,176 | 185 | 0.4 | -889 | -2.0 | 335 | 0.8 | -2,979 | -6.8 |
| Gwella Gwasanaethau, Cydweithrediad a Democratiaeth | 37,552 | 41,896 | 40,979 | 40,979 | 4,344 | 11.6 | 3,322 | 8.8 | 3,427 | 9.1 | 353 | 0.9 |
| Polisi Trethi Lleol | 10,744 | 0 | 0 | 0 | -10,744 | -100.0 | -10,744 | -100.0 | -10,744 | -100.0 | -10,744 | -100.0 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 15,757 | 15,190 | 14,461 | 14,461 | -567 | -3.6 | -937 | -5.9 | -1,296 | -8.2 | -2,381 | -15.1 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,824 | 2,722 | 2,591 | 2,591 | -102 | -3.6 | -168 | -6.0 | -233 | -8.3 | -427 | -15.1 |
| Estyn | 13,437 | 12,968 | 12,364 | 12,364 | -469 | -3.5 | -785 | -5.8 | -1,073 | -8.0 | -2,000 | -14.9 |
| Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad | 400 | 0 | 0 | 0 | -400 | -100.0 | -400 | -100.0 | -400 | -100.0 | -400 | -100.0 |
| Cydweithrediad Lleol a Rhanbarthol | 1,560 | 0 | 0 | 0 | -1,560 | -100.0 | -1,560 | -100.0 | -1,560 | -100.0 | -1,560 | -100.0 |
| Effeithlonrwydd ac Arloesedd | 3,197 | 0 | 0 | 0 | -3,197 | -100.0 | -3,197 | -100.0 | -3,197 | -100.0 | -3,197 | -100.0 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 234,063 | 227,764 | 227,066 | 227,066 | -6,299 | -2.7 | -11,854 | -5.1 | -6,997 | -3.0 | -24,030 | -10.3 |
| Gwella Cysylltedd Rhyngwladol | 114,487 | 113,837 | 113,814 | 113,814 | -650 | -0.6 | -3,427 | -3.0 | -673 | -0.6 | -9,211 | -8.0 |
| Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol) | 84,657 | 85,133 | 88,955 | 89,696 | 476 | 0.6 | -1,600 | -1.9 | 5,039 | 6.0 | -1,689 | -2.0 |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd | 3,056 | 5,995 | 4,995 | 4,995 | 2,939 | 96.2 | 2,793 | 91.4 | 1,939 | 63.4 | 1,564 | 51.2 |
| **CYFANSWM DEL REFENIW** | **4,834,155** | **4,842,872** | **4,897,837** | **4,920,978** | **8,717** | **0.2** | **-109,402** | **-2.3** | **86,823** | **1.8** | **-282,318** | **-5.8** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0.0 | -488 | -2.4 | 0 | 0.0 | -1,500 | -7.5 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 17,280 | 14,774 | 10,950 | 10,950 | -2,506 | -14.5 | -2,866 | -16.6 | -6,330 | -36.6 | -7,151 | -41.4 |
| Cymunedau Diogelach | 9,156 | 8,529 | 7,711 | 7,711 | -627 | -6.8 | -835 | -9.1 | -1,445 | -15.8 | -2,023 | -22.1 |
| Estyn | 339 | 315 | 281 | 281 | -24 | -7.1 | -32 | -9.3 | -58 | -17.1 | -79 | -23.3 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 83,674 | 84,752 | 54,616 | 54,616 | 1,078 | 1.3 | -989 | -1.2 | -29,058 | -34.7 | -33,155 | -39.6 |
| Gwella Cysylltedd Rhyngwladol | 59,088 | 52,687 | 82,514 | 82,514 | -6,401 | -10.8 | -7,686 | -13.0 | 23,426 | 39.6 | 17,236 | 29.2 |
| Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol) | 80,713 | 72,601 | 49,236 | 49,236 | -8,112 | -10.1 | -9,883 | -12.2 | -31,477 | -39.0 | -35,170 | -43.6 |
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd | 10,922 | 7,983 | 7,983 | 7,983 | -2,939 | -26.9 | -3,134 | -28.7 | -2,939 | -26.9 | -3,538 | -32.4 |
| **CYFANSWM DEL CYFALAF** | **281,172** | **261,641** | **233,291** | **233,291** | **-19,531** | **-6.9** | **-25,912** | **-9.2** | **-47,881** | **-17.0** | **-65,381** | **-23.3** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 13,583 | 20,717 | 20,717 | 18,288 | 7,134 | 52.5 | 6,629 | 48.8 | 4,705 | 34.6 | 3,333 | 24.5 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 24,138 | 43,597 | 4,973 | 34,952 | 19,459 | 80.6 | 18,396 | 76.2 | 10,814 | 44.8 | 8,192 | 33.9 |
| **CYFANSWM AME** | **37,721** | **64,314** | **25,690** | **53,240** | **26,593** | **70.5** | **25,024** | **66.3** | **15,519** | **41.1** | **11,525** | **30.6** |
| DEL Refeniw | 4,834,155 | 4,842,872 | 4,897,837 | 4,920,978 | 8,717 | 0.2 | -109,402 | -2.3 | 86,823 | 1.8 | -282,318 | -5.8 |
| DEL Cyfalaf | 281,172 | 261,641 | 233,291 | 233,291 | -19,531 | -6.9 | -25,912 | -9.2 | -47,881 | -17.0 | -65,381 | -23.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **5,115,327** | **5,104,513** | **5,131,128** | **5,154,269** | **-10,814** | **-0.2** | **-135,314** | **-2.6** | **38,942** | **0.8** | **-347,699** | **-6.8** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 37,721 | 64,314 | 25,690 | 53,240 | 26,593 | 70.5 | 25,024 | 66.3 | 15,519 | 41.1 | 11,525 | 30.6 |
| **CYFANSWM LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU** | **5,153,048** | **5,168,827** | **5,156,818** | **5,207,509** | **15,779** | **0.3** | **-110,290** | **-2.1** | **54,461** | **1.1** | **-336,174** | **-6.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 6. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Mae'r adran hon yn rhoi'r manylion cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y Prif Grŵp Gwariant.

Mae **tabl 11** yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant, gan ddangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae prif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwybodaeth yn cyfrif am oddeutu **2 y cant** o ddyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae'r terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £8.9 miliwn neu 3.2% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £15.5 miliwn neu 5.5%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £16.4 miliwn, neu 5.9% mewn termau real, sy'n golygu gostyngiad o £36.2 miliwn, neu 12.9% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £2.8 miliwn neu 1.5% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £7.2 miliwn neu 3.9%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o£1.2 miliwn, neu 0.7% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £15 miliwn, neu 8.1% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £6.1 miliwn neu 6.5% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £8.3 miliwn neu 8.8%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £15.2 miliwn, neu 16.1% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £21.2 miliwn, neu 22.4% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: dim newid mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £1 miliwn neu 2.4%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): dim newidiadau mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £3.1 miliwn, neu 7.5% mewn termau real.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Nid oes dim dyraniadau ychwanegol i brif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r gyllideb ddrafft yn dangos y bydd y trosglwyddiad refeniw o brif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, sef £1 miliwn sy'n ymwneud â'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, (a wnaed yn wreiddiol yn 2011-12), yn digwydd yn rheolaidd.[54]

Mae'r trosglwyddiadau canlynol hefyd wedi cael eu gwneud ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth:

- £2.7 miliwn o'r cam gweithredu *Sectorau* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Sectorau a Busnes* i'r cam gweithredu *Hybu Arloesi* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Hybu Arloesi*. Mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb refeniw ar gyfer cynlluniau arloesedd; a
- £0.3 miliwn o'r cam gweithredu *Sectorau* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Sectorau a Busnes* i'r cam gweithredu *Rhaglenni Strategol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol*. Mae hyn yn ymwneud â chymorth rhaglen strategol.

---

[54] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (tudalen 38) [fel ar 21 Hydref 2011]

### *Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu.

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 mewn termau arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant *Hybu Arloesi*, sy'n gweld cynnydd o £2.6 miliwn, neu 83.0% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y weithred hon o £3.7 miliwn, neu 171.7% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[55] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Gellir gweld bod hyn yn rhannol oherwydd y trosglwyddo i mewn o'r Maes Rhaglenni Gwariant *Sectorau a Busnes*, fel y manylir uchod.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, mewn termau arian parod ac yn ganrannol, yn y cam gweithredu *Cronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Sectorau a Busnes*, sy'n gweld gostyngiad o £4.6 miliwn, neu 51.1% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid ar gyfer y cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[56] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes[57] yn awgrymu y gall hyn gynrychioli arbedion o ymrwymiadau wedi'u hail-broffilio ar y Gronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol.
- Mewn perthynas â DEL cyfalaf yn 2012-13, mae'r cynnydd mwyaf mewn termau arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Darparu Seilwaith TGCh* sy'n codi £4.3 miliwn, neu dros 100 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[58] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Sectorau a Busnes*, yn y cam gweithredu *Cronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol*, sy'n disgyn £11.7 miliwn, neu 20.8% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[59] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes[60] yn awgrymu y gall hyn

---

[55] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[56] *ibid*
[57] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 2 - Tystiolaeth gan Edwina Hart***, 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[58] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[59] *ibid*
[60] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 2 - Tystiolaeth gan Edwina Hart***, 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

gynrychioli arbedion o ymrwymiadau wedi'u hail-broffilio ar y Gronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol.

Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn datgan:

> Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Gwyddoniaeth a Thechnoleg wrthi'n adolygu cynlluniau gwariant y portffolio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol, eu bod yn canolbwyntio ar ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, a'u bod yn cwrdd ag anghenion busnesau Cymru. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog y detholiad cychwynnol o'r pum lleoliad sy'n cael eu ffafrio ar gyfer Ardaloedd Menter yng Nghymru. Ym mhob lleoliad, byddwn yn gweithredu ymyriadau polisi mewn modd detholus.
>
> **Mae'r cynigion yn y Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu cynlluniau gwariant cyfredol yr Adran, felly mae'n bosibl y gallant newid yn y tymor byr i'r tymor canolig.**[61]
>
> **[fy mhwyslais]**

[61] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (tudalen 38) [fel ar 21 Hydref 2011]

**Tabl 11: Newid o un flwyddyn i’r llall ym mhrif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Sectorau a Buses | 48,871 | 43,826 | 43,856 | 43,856 | -5,045 | -10.3 | -6,114 | -12.5 | -5,015 | -10.3 | -8,305 | -17.0 |
| Hybu Arloesi | 3,162 | 5,785 | 5,800 | 5,800 | 2,623 | 83.0 | 2,482 | 78.5 | 2,638 | 83.4 | 2,203 | 69.7 |
| Cyllid Rhanbarthol | 2,005 | 2,005 | 2,005 | 2,005 | 0 | 0.0 | -49 | -2.4 | 0 | 0.0 | -150 | -7.5 |
| Cyllid Cymru | 5,102 | 4,802 | 4,102 | 4,102 | -300 | -5.9 | -417 | -8.2 | -1,000 | -19.6 | -1,308 | -25.6 |
| Digwyddiadau Mawr | 3,930 | 3,870 | 3,897 | 3,897 | -60 | -1.5 | -154 | -3.9 | -33 | -0.8 | -325 | -8.3 |
| Marchnata | 2,840 | 2,796 | 2,815 | 2,815 | -44 | -1.5 | -112 | -4.0 | -25 | -0.9 | -236 | -8.3 |
| Seilwaith | 21,470 | 22,415 | 23,571 | 23,571 | 945 | 4.4 | 398 | 1.9 | 2,101 | 9.8 | 333 | 1.6 |
| Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | 4,677 | 4,880 | 4,918 | 4,918 | 203 | 4.3 | 84 | 1.8 | 241 | 5.2 | -128 | -2.7 |
| WEFO | 1,522 | 1,522 | 1,522 | 1,522 | 0 | 0.0 | -37 | -2.4 | 0 | 0.0 | -114 | -7.5 |
| Materion Gwledig | 79,320 | 78,246 | 79,316 | 79,316 | -1,074 | -1.4 | -2,982 | -3.8 | -4 | -0.0 | -5,954 | -7.5 |
| Twristiaeth | 12,747 | 12,723 | 12,626 | 12,626 | -24 | -0.2 | -334 | -2.6 | -121 | -0.9 | -1,068 | -8.4 |
| **CYFANSWM DEL REFENIW** | **185,646** | **182,870** | **184,428** | **184,428** | **-2,776** | **-1.5** | **-7,236** | **-3.9** | **-1,218** | **-0.7** | **-15,053** | **-8.1** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Sectorau a Buses | 69,129 | 59,992 | 43,711 | 43,711 | -9,137 | -13.2 | -10,600 | -15.3 | -25,418 | -36.8 | -28,697 | -41.5 |
| Hybu Arloesi | 433 | 357 | 300 | 300 | -76 | -17.6 | -85 | -19.6 | -133 | -30.7 | -156 | -35.9 |
| Cyllid Rhanbarthol | 995 | 995 | 995 | 995 | 0 | 0.0 | -24 | -2.4 | 0 | 0.0 | -75 | -7.5 |
| Cyllid Cymru | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 0 | 0.0 | -37 | -2.4 | 0 | 0.0 | -113 | -7.5 |
| Seilwaith | 6,291 | 10,031 | 18,456 | 18,456 | 3,740 | 59.5 | 3,495 | 55.6 | 12,165 | 193.4 | 10,781 | 171.4 |
| Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | 449 | 417 | 372 | 372 | -32 | -7.1 | -42 | -9.4 | -77 | -17.1 | -105 | -23.4 |
| Materion Gwledig | 13,001 | 12,569 | 11,723 | 11,723 | -432 | -3.3 | -739 | -5.7 | -1,278 | -9.8 | -2,157 | -16.6 |
| Twristiaeth | 2,790 | 2,595 | 2,313 | 2,313 | -195 | -7.0 | -258 | -9.3 | -477 | -17.1 | -651 | -23.3 |
| **CYFANSWM DEL CYFALAF** | **94,588** | **88,456** | **79,370** | **79,370** | **-6,132** | **-6.5** | **-8,289** | **-8.8** | **-15,218** | **-16.1** | **-21,172** | **-22.4** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Seilwaith | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 0 | 0.0 | -1,010 | -2.4 | 0 | 0.0 | -3,106 | -7.5 |
| **CYFANSWM AME** | **41,402** | **41,402** | **41,402** | **41,402** | **0** | **0.0** | **-1,010** | **-2.4** | **0** | **0.0** | **-3,106** | **-7.5** |
| DEL Refeniw | 185,646 | 182,870 | 184,428 | 184,428 | -2,776 | -1.5 | -7,236 | -3.9 | -1,218 | -0.7 | -15,053 | -8.1 |
| DEL Cyfalaf | 94,588 | 88,456 | 79,370 | 79,370 | -6,132 | -6.5 | -8,289 | -8.8 | -15,218 | -16.1 | -21,172 | -22.4 |
| **CYFANSWM DEL** | **280,234** | **271,326** | **263,798** | **263,798** | **-8,908** | **-3.2** | **-15,526** | **-5.5** | **-16,436** | **-5.9** | **-36,224** | **-12.9** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 41,402 | 0 | 0.0 | -1,010 | -2.4 | 0 | 0.0 | -3,106 | -7.5 |
| **CYFANSWM BUSNES, MENTER, TECHNOLEG A GWYDDONIAETH** | **321,636** | **312,728** | **305,200** | **305,200** | **-8,908** | **-2.8** | **-16,536** | **-5.1** | **-16,436** | **-5.1** | **-39,330** | **-12.2** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau’r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 7. Addysg a Sgiliau

Mae'r adran hon yn rhoi'r ffigurau cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y prif grŵp gwariant.

Mae prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau wedi cael ei ailstrwythuro ers adeg Cyllideb Atodol 2011-12; fodd bynnag, mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn cysoni'r strwythurau diwygiedig a'r hen strwythurau.[62] Mae'r tablau a'r ffigurau yma yn seiliedig ar y strwythur diwygiedig.

Mae tabl 12 yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant, gan ddangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae'r prif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau yn cyfrif am oddeutu **12 y cant** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £9.3 miliwn neu 0.5% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £34.8 miliwn neu 1.9%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £26.1 miliwn, neu 1.5% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £110.9 miliwn, neu 6.2% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £18 miliwn neu 1.1% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £22.2 miliwn neu 1.4%.

[62] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (Atodiad B,tudalen 70-71) [fel ar 21 Hydref 2011]

- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £52.3 miliwn, neu 3.2% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £74 miliwn, neu 4.5% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £8.6 miliwn neu 5.1% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £12.6 miliwn neu 7.4%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £26.1 miliwn, neu 15.4% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £36.9 miliwn, neu 21.7% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £25.2 miliwn, neu 20.1% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu cynnydd o £21.6 miliwn neu 17.2%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £28 miliwn, neu 22.4% mewn termau arian parod, mae hyn yn golygu cynnydd o £16.5 miliwn, neu 13.2% mewn termau real.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, a dywedir bod y rhain wedi cael eu gwneud o'r cronfeydd wrth gefn canolog:

- £12.5 miliwn ym mhob blwyddyn yng nghyfnod y gyllideb i gefnogi'r cynllun Twf Swyddi Cymru. Bydd y gost lawn yn £25 miliwn y flwyddyn, ond bydd y 50 y cant arall yn cael ei ariannu drwy Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Cyflogadwyedd y Gweithlu* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*.
- £4.6 miliwn yn 2014-15 i gynyddu cyllid i ysgolion. Nid yw'n hysbys i ba gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant y cafodd hyn ei ddyrannu.
- £5 miliwn ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb i gefnogi'r cynllun Addasu. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Sgiliau yn y Gweithle* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*.

- £135,000 yn 2014-15 ar gyfer Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a Llaeth Ysgol. Nid yw'n hysbys i ba gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant y cafodd hyn ei ddyrannu.

Mae'r adran ar Addysg a Sgiliau yn y naratif ar y gyllideb ddrafft[63] hefyd yn cyfeirio at gyllid ychwanegol mewn perthynas â chyllid myfyrwyr, £4.3 miliwn yn 2012-13, £10.9 miliwn yn 2013-14 a £13.8 miliwn yn 2014-15. Nodir bod hyn mewn perthynas â chost benthyciadau i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan amser. Mae hyn yn ymwneud â chyllid heb fod yn arian parod yn y cam gweithredu *Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb*, ac mae wedi cael ei ddyrannu o gronfeydd heb fod yn arian parod.[64]

Bu trosglwyddiadau refeniw hefyd o Addysg a Sgiliau i brif grwpiau gwariant eraill fel a ganlyn:

- £1 miliwn i brif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae hyn mewn perthynas â'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a chafodd ei wneud yn wreiddiol yn 2011-12, a nodir y bydd hyn yn digwydd yn rheolaidd.[65] Mae hyn wedi dod o'r cam gweithredu *Cyflogadwyedd y Gweithlu* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*.
- £210,000 i brif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae hyn wedi dod o'r cam gweithredu *Lles Plant a Phobl Ifanc* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb*.

Ceir hefyd nifer o drosglwyddiadau refeniw wedi'u **cynllunio** rhwng camau gweithredu gwahanol ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau. Dylid nodi mai trosglwyddiadau wedi'u cynllunio yw'r rhain ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn llinell sylfaen y gyllideb ddrafft, ond byddant yn cael eu cynnwys yn y Gyllideb Atodol nesaf ar gyfer 2011-12[66]:

- Bydd £7 miliwn yn cael ei drosglwyddo o'r cam gweithredu *Llythrennedd a Rhifedd* i'r cam gweithredu *Safonau Addysg*, mae'r ddwy yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant*. Nodir bod hyn wedi cael ei ailgyfeirio i ysgolion drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.[67]

---

[63] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 45) [fel ar 21 Hydref 2011]
[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 1 - Tystiolaeth gan Leighton Andrews a Jeff Cuthbert*** , ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 2*** , 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[65] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 45) [fel ar 21 Hydref 2011]
[66] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 46) [fel ar 21 Hydref 2011]
[67] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 1 – Tystiolaeth gan Leighton Andrews a Jeff Cuthbert*** , ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 2*** , 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

- Bydd £1.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo o'r cam gweithredu *Llythrennedd a Rhifedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant*, i'r cam gweithredu *Cyflogadwyedd y Gweithlu* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*. Nodir bod hyn mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd oedolion.[68]
- Bydd £2.2 miliwn yn cael ei drosglwyddo o'r cam gweithredu *Cyfleoedd Mynediad* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb* i'r cam gweithredu *Llythrennedd a Rhifedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant*. Nodir bod hyn mewn perthynas â chyllid ar gyfer rhaglenni llythrennedd a rhifedd ar gyfer teuluoedd a arferai fod yn gysylltiedig â rhaglen Cymorth.[69]

***Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau 2012-13***

Mae'r adran hon yn edrych ar y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu. Sylwer, lle rhoddir esboniadau am y newidiadau, bod y rhain wedi dod o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes[70] neu ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13.[71]

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Safonau Addysg* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant*, sy'n gweld cynnydd o £17.3 miliwn, neu 76.3 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £14.6 miliwn, neu 57.5% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[72] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae papur y Gweinidog yn datgan bod hyn yn rhannol oherwydd trosglwyddo'r £7 miliwn y mae ei fanylion uchod, yn ogystal â chanfod arbedion ac ailflaenoriaethu adnoddau sy'n caniatáu cynyddu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sef £7.6 miliwn yn 2012-13.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Cyflogadwyedd y Gweithlu* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*, sy'n gweld cynnydd o £12.3 miliwn, neu dros 100 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd

---

[68] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 1 - Tystiolaeth gan Leighton Andrews a Jeff Cuthbert***, ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 2***, 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[69] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 1 - Tystiolaeth gan Leighton Andrews a Jeff Cuthbert***, ***Atodiad 1*** ac ***Atodiad 2***, 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[70] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***HSC(4)-08-11 papur 2: Cyllideb Drafft 2012-13 – Papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***, 20 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[71] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[72] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011

net o £11.3 miliwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[73] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.  Mae papur y Gweinidog yn egluro bod hyn o ganlyniad i ddyrannu £12.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y Cynllun Twf Swyddi a throsglwyddo £1.1 miliwn i mewn ar gyfer llythrennedd a rhifedd oedolion, a wrthbwysir gan drosglwyddo £1 miliwn allan i brif grŵp gwariant Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth mewn perthynas â'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a throsglwyddo £1.35 miliwn allan i'r cam gweithredu *Sgiliau yn y Gweithlu*, (yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gweithlu Medrus*) i greu'r gyllideb Sgiliau Twf.

- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, o ran termau arian parod, yn y cam gweithredu *Addysg Uwch* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant*, sy'n gweld gostyngiad o £14.1 miliwn, neu 3.6% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[74] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Dim ond dau gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant cyfalaf sydd yn y portffolio Addysg a Sgiliau. Y cam gweithredu *Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Safonau Addysg a Hyfforddiant* sy'n gweld gostyngiad o £8.7 miliwn, neu 5.1% mewn termau arian parod yn 2012-13. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[75] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae'r cam gweithredu cyfalaf *Bwrdd yr Iaith Gymraeg* yn y Maes Rhaglenni Gwariant o'r un enw yn gweld cynnydd o £50,000, neu 100 y cant mewn termau arian parod yn 2012-13.  Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[76] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.

Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn datgan mewn perthynas â chyfalaf:

> Nid yw'r gyllideb cyfalaf wedi newid ers y gyllideb ddangosol. Mae'n gostwng i £143.8m erbyn 2013-14 o'i chymharu â'r gyllideb bresennol o £169.9m.  Mae pob prosiect a gymeradwywyd yn mynd rhagddo.  Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.[77]

---

[73] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[74] *ibid*
[75] *ibid*
[76] *ibid*
[77] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, ***EBC(4)-06-11 Papur 1 -Tystiolaeth gan Leighton Andrews a Jeff Cuthbert*** , ***Atodiad 1*** a ***Atodiad 2*** , 12 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

**Tabl 12: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft 2011- | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 1,137,490 | 1,145,476 | 1,166,719 | 1,171,319 | 7,986 | 0.7 | -19,952 | -1.8 | 33,829 | 3.0 | -54,036 | -4.8 |
| Gweithlu Medrus | 70,385 | 82,439 | 77,039 | 77,039 | 12,054 | 17.1 | 10,043 | 14.3 | 6,654 | 9.5 | 875 | 1.2 |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 390,758 | 390,762 | 401,605 | 404,640 | 4 | 0.0 | -9,527 | -2.4 | 13,882 | 3.6 | -16,472 | -4.2 |
| Yr Iaith Gymraeg | 26,255 | 26,355 | 26,455 | 26,455 | 100 | 0.4 | -543 | -2.1 | 200 | 0.8 | -1,784 | -6.8 |
| Cymorth Cyflawni | 5,313 | 3,148 | 3,006 | 3,006 | -2,165 | -40.7 | -2,242 | -42.2 | -2,307 | -43.4 | -2,532 | -47.7 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **1,630,201** | **1,648,180** | **1,674,824** | **1,682,459** | **17,979** | **1.1** | **-22,221** | **-1.4** | **52,258** | **3.2** | **-73,950** | **-4.5** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Sgiliau Addysg a Hyfforddiant | 169,923 | 161,243 | 143,734 | 143,734 | -8,680 | -5.1 | -12,613 | -7.4 | -26,189 | -15.4 | -36,971 | -21.8 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 50 | 100 | 100 | 100 | 50 | 100.0 | 48 | 95.1 | 50 | 100.0 | 42 | 85.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **169,973** | **161,343** | **143,834** | **143,834** | **-8,630** | **-5.1** | **-12,565** | **-7.4** | **-26,139** | **-15.4** | **-36,929** | **-21.7** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 125,302 | 150,525 | 161,285 | 153,310 | 25,223 | 20.1 | 21,552 | 17.2 | 28,008 | 22.4 | 16,508 | 13.2 |
| **CYFANSWM AME** | **125,302** | **150,525** | **161,285** | **153,310** | **25,223** | **20.1** | **21,552** | **17.2** | **28,008** | **22.4** | **16,508** | **13.2** |
| DEL Refeniw | 1,630,201 | 1,648,180 | 1,674,824 | 1,682,459 | 17,979 | 1.1 | -22,221 | -1.4 | 52,258 | 3.2 | -73,950 | -4.5 |
| DEL Cyfalaf | 169,973 | 161,343 | 143,834 | 143,834 | -8,630 | -5.1 | -12,565 | -7.4 | -26,139 | -15.4 | -36,929 | -21.7 |
| **CYFANSWM DEL** | **1,800,174** | **1,809,523** | **1,818,658** | **1,826,293** | **9,349** | **0.5** | **-34,786** | **-1.9** | **26,119** | **1.5** | **-110,878** | **-6.2** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 125,302 | 150,525 | 161,285 | 153,310 | 25,223 | 20.1 | 21,552 | 17.2 | 28,008 | 22.4 | 16,508 | 13.2 |
| **CYFANSWM ADDYSG A SGILIAU** | **1,925,476** | **1,960,048** | **1,979,943** | **1,979,603** | **34,572** | **1.8** | **-13,234** | **-0.7** | **54,127** | **2.8** | **-94,371** | **-4.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 8. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y prif grŵp gwariant.

Mae **tabl 13** yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant, sy'n dangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae prif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn cyfrif am oddeutu **2 y cant** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £2.9 miliwn neu 0.9% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £10.9 miliwn neu 3.3%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £6.3 miliwn, neu 1.9% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £30.5 miliwn, neu 9.3% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw yn yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £3.9 miliwn neu 1.4% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £10.4 miliwn neu 3.8%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £134,000, neu 0% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £20 miliwn, neu 7.5% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

- Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn dangos: Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £1

miliwn neu 1.6% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £0.5 miliwn neu 0.9%.

- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £6.4 miliwn, 10.6% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £10.5 miliwn, neu 17.3% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Nid oes dim Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a nodir bod y rhain wedi cael eu gwneud o'r cronfeydd wrth gefn canolog:

- £0.5 miliwn yn 2012-13, £1.3 miliwn yn 2013-14 a £5.6 miliwn yn 2014-15 mewn perthynas â rheoli gwastraff. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*.
- £17.2 miliwn yn 2012-13, £16.6 miliwn yn 2013-14 a £15.8 miliwn yn 2014-15 mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid. Mae hyn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda DEFRA ar gyfer cyllido gweithgareddau'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol yng Nghymru. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid* yn y Maes Rhaglenni Gwariant o'r un enw.

Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn datgan na fu dim newidiadau mawr eraill i'r gyllideb.[78]

### *Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu. Sylwer, lle caiff esboniadau eu

---

[78] Llywodraeth Cymru, *Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (tudalen 52) [fel ar 21 Hydref 2011]

rhoi am y newidiadau hyn, bod y rhain wedi dod o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd[79] neu ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13.[80]

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Yr Amgylchedd*, sy'n gweld cynnydd o £1.9 miliwn, neu 3.1 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid i'r cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[81] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*, sy'n gweld cynnydd o £1.4 miliwn, neu 7.0% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid yn y cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[82] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, mewn termau arian parod, yn y cam gweithredu *Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*, sy'n gweld gostyngiad o £2.5 miliwn, neu 3.1% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd o £0.5 miliwn, neu 0.6% yn y cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[83] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae hyn oherwydd y cyllid ychwanegol ar gyfer rheoli gwastraff y cyfeiriwyd ato uchod, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiadau wedi'u cynllunio i'r ffigurau dangosol ar gyfer 2012-13.
- Mae'r cynnydd mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13, o ran arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*, sy'n gweld cynnydd o £4.4 miliwn, neu 75.2% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn dangos nad oes dim newid yn y cam gweithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[84] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13, mewn termau arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Datblygu a Gweithredu Polisi a*

---

[79] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ***E&S(4)-07-11 papur 2: Cyllideb Ddrafft 2012-13: Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy***, 19 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[80] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[81] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[82] *ibid*
[83] *ibid*
[84] *ibid*

*Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion* action yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd*, sy'n gweld gostyngiad o £2.4 miliwn, neu 13.1% mewn termau arian parod.  Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid yn y cam weithredu hwn rhwng ffigurau dangosol 2012-13[85] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.

[85] *ibid*

**Tabl 13: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwariant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen Cyllideb Ddrafft 2011-12 | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 117,485 | 115,885 | 121,118 | 125,418 | -1,600 | -1.4 | -4,426 | -3.8 | 7,933 | 6.8 | -1,475 | -1.3 |
| Yr Amgylchedd | 80,768 | 80,887 | 77,648 | 77,648 | 119 | 0.1 | -1,854 | -2.3 | -3,120 | -3.9 | -8,945 | -11.1 |
| Cynllunio | 7,772 | 7,403 | 7,090 | 7,090 | -369 | -4.7 | -550 | -7.1 | -682 | -8.8 | -1,214 | -15.6 |
| Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 41,038 | 39,454 | 38,895 | 38,041 | -1,584 | -3.9 | -2,546 | -6.2 | -2,997 | -7.3 | -5,851 | -14.3 |
| Sail Dystiolaeth | 404 | 354 | 304 | 304 | -50 | -12.4 | -59 | -14.5 | -100 | -24.8 | -123 | -30.4 |
| Coedwigaeth | 21,600 | 21,200 | 20,700 | 20,700 | -400 | -1.9 | -917 | -4.2 | -900 | -4.2 | -2,453 | -11.4 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **269,067** | **265,183** | **265,755** | **269,201** | **-3,884** | **-1.4** | **-10,352** | **-3.8** | **134** | **0.0** | **-20,060** | **-7.5** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 56,209 | 57,196 | 50,555 | 50,555 | 987 | 1.8 | -408 | -0.7 | -5,654 | -10.1 | -9,446 | -16.8 |
| Yr Amgylchedd | 4,600 | 4,600 | 3,850 | 3,850 | 0 | 0.0 | -112 | -2.4 | -750 | -16.3 | -1,039 | -22.6 |
| Sail Dystiolaeth | 38 | 38 | 38 | 38 | 0 | 0.0 | -1 | -2.4 | 0 | 0.0 | -3 | -7.5 |
| Coedwigaeth | -205 | -205 | -205 | -205 | 0 | 0.0 | 5 | -2.4 | 0 | 0.0 | 15 | -7.5 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **60,642** | **61,629** | **54,238** | **54,238** | **987** | **1.6** | **-516** | **-0.9** | **-6,404** | **-10.6** | **-10,473** | **-17.3** |
| DEL Refeniw | 269,067 | 265,183 | 265,755 | 269,201 | -3,884 | -1.4 | -10,352 | -3.8 | 134 | 0.0 | -20,060 | -7.5 |
| DEL Cyfalaf | 60,642 | 61,629 | 54,238 | 54,238 | 987 | 1.6 | -516 | -0.9 | -6,404 | -10.6 | -10,473 | -17.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **329,709** | **326,812** | **319,993** | **323,439** | **-2,897** | **-0.9** | **-10,868** | **-3.3** | **-6,270** | **-1.9** | **-30,532** | **-9.3** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM ESD** | **329,709** | **326,812** | **319,993** | **323,439** | **-2,897** | **-0.9** | **-10,868** | **-3.3** | **-6,270** | **-1.9** | **-30,532** | **-9.3** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 9. Tai, Adfywio a Threftadaeth

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y ffigurau cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y prif grŵp gwariant.

Mae **tabl 14** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant, gan ddangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth yn cyfrif am oddeutu **4 y cant** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm terfyn gwariant adrannol (DEL) prif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £27.9 miliwn neu 4.6% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £41.9 miliwn neu 7.0%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £58.6 miliwn, neu 9.7% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £99.2 miliwn, neu 16.5% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £5.7 miliwn neu 2.0% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £12.5 miliwn neu 4.4%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £4.4 miliwn, neu 1.5% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £25.4 miliwn, neu 8.9% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £22.2 miliwn neu 7.0% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £29.4 miliwn neu 9.3%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £54.2 miliwn, neu 17.1% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £73.9 miliwn, neu 23.3% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: cynnydd o £11.2 miliwn, neu 16.1% mewn termau arian parod. Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £17.5 miliwn, neu 25.1% mewn termau arian parod.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu dyraniadau refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth, a nodir eu bod wedi cael eu gwneud o'r cronfeydd wrth gefn canolog:

- £0.4 miliwn yn 2012-13 a £0.6 miliwn ym mhob un o flynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15 mewn perthynas â chostau rhedeg Cadw. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant o'r un enw.
- £46,000 yn 2014-15 mewn perthynas â nofio am ddim. Mae hyn wedi mynd i'r cam gweithredu *Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant o'r un enw.[86]

Bu trosglwyddiad refeniw hefyd ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth fel a ganlyn:

- Cafodd £0.3 miliwn yn 2012-13 ei drosglwyddo o'r cam gweithredu *Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol* i'r cam gweithredu *Rheoli'r Gwaith o Weithredu Ardaloedd Adfywio o'r Gorffennol* ill dau yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Adfywio*. Dywedir bod hyn i gefnogi ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli sy'n ymwneud ag Awdurdod Harbwr Bae Caerdydd.[87]

---

[86] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ***CELG(4)-05-11 : Papur 2***
***Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth***, 13 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[87] Llywodraeth Cymru***, Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 56) [fel ar 21 Hydref 2011]

*Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu. Sylwer, lle caiff esboniadau eu rhoi am y newidiadau, bod y rhain wedi dod o bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol[88] neu ddogfen naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13.[89]

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, mewn termau arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Adfywio*, sy'n gweld cynnydd o £0.9 miliwn, neu 18.3 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod gostyngiad net i'r cam gweithredu hwn o £0.3 miliwn, neu 4.7% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[90] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Gellir gweld bod hyn oherwydd trosglwyddo £0.3 miliwn allan fel y nodir uchod, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd i'r gyllideb ddangosol rhwng 2011-12 a 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, mewn termau arian parod, yn y cam gweithredu *Galluogi Pobl i Fyw'n Annibynnol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Tai*, sy'n gweld gostyngiad o £3.4 miliwn, neu 2.3% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[91] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13, yn ganrannol, yn y cam gweithredu *Datblygu Cymunedol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Adfywio*, sy'n disgyn o £1.1 miliwn i ddim mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[92] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r cynnydd mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13, o ran arian parod ac yn ganrannol, yn y cam gweithredu *Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes Trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd*, sy'n gweld cynnydd o £0.5 miliwn, neu 55.5% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan

---

[88] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ***CELG(4)-05-11 : Papur 2***
***Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth***, 13 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[89] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[90] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[91] *ibid*
[92] *ibid*

nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[93] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.

- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 mewn termau arian parod yn y cam gweithredu *Cyflawni Tai o Ansawdd* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Tai*, sy'n gweld gostyngiad o £8.8 miliwn, neu 4.9% mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[94] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 yn ganrannol yn y cam gweithredu *Cyfalaf Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Adfywio*, sy'n disgyn o £250,000 i ddim mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan nad oes dim newid rhwng ffigurau dangosol 2012-13[95] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.

---

[93] *ibid*
[94] *ibid*
[95] *ibid*

**Tabl 14: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwariant Tai, Adfywio a Threftadaeth, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Cyllideb Ddrafft gwaelod lin 2011- | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | | |
| Tai | 154,765 | 151,147 | 151,792 | 151,792 | -3,618 | -2.3 | -7,305 | -4.7 | -2,973 | -1.9 | -14,360 | -9.3 |
| Adfywio | 14,489 | 14,336 | 14,397 | 14,397 | -153 | -1.1 | -503 | -3.5 | -92 | -0.6 | -1,172 | -8.1 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 35,397 | 34,802 | 35,643 | 35,643 | -595 | -1.7 | -1,444 | -4.1 | 246 | 0.7 | -2,428 | -6.9 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 38,191 | 37,436 | 37,445 | 37,445 | -755 | -2.0 | -1,668 | -4.4 | -746 | -2.0 | -3,555 | -9.3 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 25,437 | 24,923 | 24,853 | 24,899 | -514 | -2.0 | -1,122 | -4.4 | -538 | -2.1 | -2,406 | -9.5 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 4,031 | 3,980 | 3,926 | 3,926 | -51 | -1.3 | -148 | -3.7 | -105 | -2.6 | -400 | -9.9 |
| Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 11,712 | 11,658 | 11,541 | 11,541 | -54 | -0.5 | -338 | -2.9 | -171 | -1.5 | -1,037 | -8.9 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **284,022** | **278,282** | **279,597** | **279,643** | **-5,740** | **-2.0** | **-12,527** | **-4.4** | **-4,379** | **-1.5** | **-25,356** | **-8.9** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Tai | 249,392 | 231,970 | 206,782 | 206,782 | -17,422 | -7.0 | -23,080 | -9.3 | -42,610 | -17.1 | -58,122 | -23.3 |
| Adfywio | 55,343 | 51,477 | 45,888 | 45,888 | -3,866 | -7.0 | -5,122 | -9.3 | -9,455 | -17.1 | -12,897 | -23.3 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 460 | 455 | 450 | 450 | -5 | -1.1 | -16 | -3.5 | -10 | -2.2 | -44 | -9.5 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 5,673 | 4,973 | 4,043 | 4,043 | -700 | -12.3 | -821 | -14.5 | -1,630 | -28.7 | -1,933 | -34.1 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 345 | 345 | 345 | 345 | 0 | 0.0 | -8 | -2.4 | 0 | 0.0 | -26 | -7.5 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 25 | 25 | 25 | 25 | 0 | 0.0 | -1 | -2.4 | 0 | 0.0 | -2 | -7.5 |
| Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 5,500 | 5,313 | 5,031 | 5,031 | -187 | -3.4 | -317 | -5.8 | -469 | -8.5 | -846 | -15.4 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **316,738** | **294,558** | **262,564** | **262,564** | **-22,180** | **-7.0** | **-29,364** | **-9.3** | **-54,174** | **-17.1** | **-73,870** | **-23.3** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 2,265 | 2,490 | 2,740 | 2,740 | 225 | 9.9 | 164 | 7.3 | 475 | 21.0 | 269 | 11.9 |
| Tai | -72,000 | -61,000 | -55,000 | -55,000 | 11,000 | 15.3 | 12,488 | 17.3 | 17,000 | 23.6 | 21,126 | 29.3 |
| **CYFANSWM AME** | **-69,735** | **-58,510** | **-52,260** | **-52,260** | **11,225** | **16.1** | **12,652** | **18.1** | **17,475** | **25.1** | **21,395** | **30.7** |
| DEL Refeniw | 284,022 | 278,282 | 279,597 | 279,643 | -5,740 | -2.0 | -12,527 | -4.4 | -4,379 | -1.5 | -25,356 | -8.9 |
| DEL Cyfalaf | 316,738 | 294,558 | 262,564 | 262,564 | -22,180 | -7.0 | -29,364 | -9.3 | -54,174 | -17.1 | -73,870 | -23.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **600,760** | **572,840** | **542,161** | **542,207** | **-27,920** | **-4.6** | **-41,892** | **-7.0** | **-58,553** | **-9.7** | **-99,226** | **-16.5** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -69,735 | -58,510 | -52,260 | -52,260 | 11,225 | 16.1 | 12,652 | 18.1 | 17,475 | 25.1 | 21,395 | 30.7 |
| **CYFANSWM TAI, ADFYWIO A THREFTADAETH** | **531,025** | **514,330** | **489,901** | **489,947** | **-16,695** | **-3.1** | **-29,240** | **-5.5** | **-41,078** | **-7.7** | **-77,831** | **-14.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13

## 10. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y ffigurau cyffredinol ar gyfer prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn rhoi manylion trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol, ac yn crynhoi'r newidiadau mwyaf yng nghamau gweithredu/Meysydd Rhaglenni Gwariant y prif grŵp gwariant.

Mae **tabl 15** yn rhoi gwybodaeth am y dyraniadau a gynigir ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant, gan ddangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb.

Mae prif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cyfrif am oddeutu **2 y cant** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru ym mhob un o flynyddoedd cyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15).

### *Cyfanswm DEL*

Mae cyfanswm terfyn gwariant adrannol (DEL) ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £12.6 miliwn neu 3.5% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £21.2 miliwn neu 5.8%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £30.3 miliwn, neu 8.4% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £55.3 miliwn, neu 15.2% mewn termau real.

### *DEL Refeniw*

Mae DEL Refeniw ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £10.4 miliwn neu 3.1% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £18.2 miliwn neu 5.5%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £24.9 miliwn, neu 7.5% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £48 miliwn, neu 14.5% mewn termau real.

### *DEL Cyfalaf*

Mae DEL Cyfalaf ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £2.3 miliwn neu 7.3% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £3.0 miliwn neu 9.6%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): gostyngiad o £5.4 miliwn, neu 17.6% mewn termau arian parod, sy'n golygu gostyngiad o £7.3 miliwn, neu 23.8% mewn termau real.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn dangos:

- Llinell sylfaen 2011-12 i 2012-13: gostyngiad o £0.7 miliwn, neu 67.0% mewn termau arian parod. Mewn termau real mae hyn yn golygu gostyngiad o £0.7 miliwn neu 62.9%.
- Dros gyfnod y gyllideb (2011-12 i 2014-15): cynnydd o £0.2 miliwn, neu 22.9% mewn termau arian parod.

### *Trosglwyddiadau a dyraniadau ychwanegol*

Bu dyraniad refeniw ychwanegol i brif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddol, a nodir ei fod wedi cael ei wneud o gronfeydd canolog:

- £0.4 miliwn ym mhob un o dair blynedd cyfnod y gyllideb mewn perthynas â throsglwyddo cyllid ar gyfer iechyd anifeiliaid o DEFRA. Nid yw'n hysbys i ba gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant y mae hwn wedi cael ei ddyrannu.

Bu trosglwyddiadau refeniw gyda phrif grwpiau gwariant eraill fel a ganlyn:

- Mae £0.3 miliwn wedi cael ei drosglwyddo i brif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant mewn perthynas â chostau rhedeg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Nid yw'n hysbys o ba gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant y daeth y cyllid hwn ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- Mae £0.2 miliwn wedi cael ei drosglwyddo i mewn o brif grŵp gwariant Addysg a Sgiliau, mewn perthynas â throsglwyddo cyfrifoldeb dros Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Nid yw'n hysbys i ba gam gweithredu/Maes Rhaglenni Gwariant y mae'r cyllid hwn wedi mynd.

Bu hefyd nifer o drosglwyddiadau mewnol rhwng camau gweithredu yn y prif grŵp gwariant:

- Mae'r camau gweithredu *Y Strategaeth Leoli* (refeniw a chyfalaf) yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog* wedi cael eu lleihau i ddim yn 2012-13. Nodir bod hyn oherwydd cau'r Strategaeth Leoli ar ôl cwblhau adeiladu swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth ac yng Nghyffordd Llandudno. Mae rhan o'r gyllideb hon wedi cael ei throsglwyddo i'r cam gweithredu *Gwariant Gweinyddol Cyffredinol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog* i dalu am gostau rheolaidd y swyddfeydd newydd, ac mae'r gweddill yn trosglwyddo i'r cam gweithredu *Hwyluso Llywodraeth* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog* i gefnogi gweithgarwch cefnogi busnesau.[96]

### *Newidiadau ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu 2012-13*

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y prif newidiadau rhwng 2011-12 a 2012-13 ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar lefel Maes Rhaglenni Gwariant ac ar lefel camau gweithredu.

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Gwariant Gweinyddol Cyffredinol* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog*, sy'n gweld cynnydd o £4.1 miliwn, neu 10.8 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net ar gyfer y cam gweithredu hwn o £0.7 miliwn, neu 1.8% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[97] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae hyn fwy na thebyg oherwydd trosglwyddiad o'r cam gweithredu *Y Strategaeth Leoli* fel y manylir uchod.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Penodiadau Cyhoeddus* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth*, sy'n gweld cynnydd o £0.2 miliwn, neu dros 100 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net o £0.2 miliwn, neu dros 100 y cant rhwng ffigurau dangosol 2012-13[98] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn 2012-13 mewn termau arian parod yn y cam gweithredu *Costau Staff* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Dirprwyedig*, sy'n gweld gostyngiad o £10 miliwn, neu 4.7%

---

[96] Llywodraeth Cymru, ***Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13***, Hydref 2011 (tudalen 62) [fel ar 21 Hydref 2011]
[97] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[98] *ibid*

mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net o £1.2 miliwn, neu 0.6% rhwng ffigurau dangosol 2012-13[99] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Dywedir bod y cynnydd hwn yn deillio o ailflaenoriaethu cyllidebau i ffwrdd o wasanaethau ar gontract allanol tuag at fwy o ddarparu gwasanaethau'n fewnol.[100]

- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL refeniw yn ganrannol yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Strategaeth Leoli* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog,* sy'n disgyn o £3.7 miliwn i ddim. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod gostyngiad net o £3.4 miliwn, neu dros 100 y cant rhwng ffigurau dangosol 2012-13[101] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Dywedir bod hyn oherwydd cau'r Strategaeth Leoli a throsglwyddo'r gyllideb hon i gamau gweithredu eraill, fel y manylir uchod.
- Mae'r cynnydd arian parod a chanrannol mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 yn y cam gweithredu *Hwyluso Llywodraeth* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog*, sy'n gweld cynnydd o £2.9 miliwn, neu dros 100 y cant mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod cynnydd net i'r cam gweithredu hwn o £3 miliwn, neu dros 100 y cant rhwng ffigurau dangosol 2012-13[102] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Mae hyn fwy na thebyg oherwydd trosglwyddiad o'r cam gweithredu *Strategaeth Leoli* fel y manylir uchod.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn DEL cyfalaf yn 2012-13 mewn termau arian parod ac yn ganrannol yn y cam gweithredu *Strategaeth Leoli* yn y Maes Rhaglenni Gwariant *Costau Rhedeg Canolog*, sy'n disgyn o £3 miliwn i ddim mewn termau arian parod. Mae dogfennau'r gyllideb yn datgan bod gostyngiad net o £3 miliwn, i ddim rhwng ffigurau dangosol 2012-13[103] a ffigurau cyllideb ddrafft 2012-13. Dywedir bod hyn oherwydd cau'r Strategaeth Leoli a throsglwyddo'r gyllideb hon i gamau gweithredu eraill, fel y manylir uchod.

---

[99] *ibid*
[100] Llywodraeth Cymru*, Naratif Cyllideb Ddrafft 2012-13*, Hydref 2011 (tudalen 62) [fel ar 21 Hydref 2011]
[101] Fel yr oedd yn y Gyllideb Atodol 2011-12, Mehefin 2011
[102] *ibid*
[103] *ibid*

**Tabl 15: Newid o un flwyddyn i'r llall ym mhrif grŵp gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, 2011-12 i 2012-13 a newid cronnus dros gyfnod y gyllideb, termau arian parod a thermau real**

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen y Gyllideb Ddrafft 2011-12 | Cyllideb Ddrafft 2012-13 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2013-14 | Cyllideb Ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid 2011-12 i 2012-13 | | Newid termau real 2011-12 i 2012-13 | | Newid cronnus 2011-12 i 2014-15 | | Newid cronnus termau real 2011-12 i 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL Refeniw** | | | | | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Dirprwyedig | 214,326 | 204,340 | 194,099 | 194,099 | -9,986 | -4.7 | -14,970 | -7.0 | -20,227 | -9.4 | -34,787 | -16.2 |
| Costau Rhedeg Canolog | 91,176 | 91,377 | 88,083 | 88,083 | 201 | 0.2 | -2,028 | -2.2 | -3,093 | -3.4 | -9,700 | -10.6 |
| Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth | 11,524 | 11,377 | 11,035 | 11,035 | -147 | -1.3 | -424 | -3.7 | -489 | -4.2 | -1,317 | -11.4 |
| Rhaglenni Canolog | 14,804 | 14,361 | 13,682 | 13,682 | -443 | -3.0 | -793 | -5.4 | -1,122 | -7.6 | -2,148 | -14.5 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **331,830** | **321,455** | **306,899** | **306,899** | **-10,375** | **-3.1** | **-18,215** | **-5.5** | **-24,931** | **-7.5** | **-47,953** | **-14.5** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | 11,982 | 11,145 | 9,935 | 9,935 | -837 | -7.0 | -1,109 | -9.3 | -2,047 | -17.1 | -2,792 | -23.3 |
| Rhaglenni Canolog | 18,738 | 17,319 | 15,378 | 15,378 | -1,419 | -7.6 | -1,841 | -9.8 | -3,360 | -17.9 | -4,514 | -24.1 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **30,720** | **28,464** | **25,313** | **25,313** | **-2,256** | **-7.3** | **-2,950** | **-9.6** | **-5,407** | **-17.6** | **-7,306** | **-23.8** |
| **AME** | | | | | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | -1,100 | -1,837 | -1,366 | -848 | -737 | -67.0 | -692 | -62.9 | 252 | 22.9 | 316 | 28.7 |
| **CYFANSWM AME** | **-1,100** | **-1,837** | **-1,366** | **-848** | **-737** | **-67.0** | **-692** | **-62.9** | **252** | **22.9** | **316** | **28.7** |
| DEL Refeniw | 331,830 | 321,455 | 306,899 | 306,899 | -10,375 | -3.1 | -18,215 | -5.5 | -24,931 | -7.5 | -47,953 | -14.5 |
| DEL Cyfalaf | 30,720 | 28,464 | 25,313 | 25,313 | -2,256 | -7.3 | -2,950 | -9.6 | -5,407 | -17.6 | -7,306 | -23.8 |
| **CYFANSWM DEL** | **362,550** | **349,919** | **332,212** | **332,212** | **-12,631** | **-3.5** | **-21,166** | **-5.8** | **-30,338** | **-8.4** | **-55,258** | **-15.2** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -1,100 | -1,837 | -1,366 | -848 | -737 | -67.0 | -692 | -62.9 | 252 | 22.9 | 316 | 28.7 |
| **CYFANSWM CSA** | **361,450** | **348,082** | **330,846** | **331,364** | **-13,368** | **-3.7** | **-21,858** | **-6.0** | **-30,086** | **-8.3** | **-54,943** | **-15.2** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-13